# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 30AIN TACHWEDD, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 20 Tachwedd 2020)

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**AELODAETH (19)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
W. Gareth Roberts
E. Selwyn Griffiths

Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Paul John Rowlinson

Sedd wag
Peredur Jenkins
Gethin Glyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

## Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

## Aelodau Ex-officio
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15fed o Hydref 2020 fel rhai cywir

## 5. LLYTHYRAU GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU 14 - 19

Cyflwyno 2 lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 30 Medi 2020

- Cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 1)
- Cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 2)

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 20 - 30

I ystyried yr adroddiad

## 7. TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDIGAETH A GWRTH LWGRWOBRWYO 31 - 35

I ystyried yr adroddiad sydd yn diweddaru'r pwyllgor am drefniadau atal twyll ac atal llygredd y cyngor, a'r cynnydd ar y rhaglen waith am y tair blynedd nesaf

## 8. TREFNIADAU RHEOLI RISG 36 - 39

I ystyried yr adroddiad sydd yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor archwilio a llywodraethu am drefniadau rheoli risg y cyngor

## 9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 40 - 44

I ystyried adroddiad y Rheolwr Archwilio

## 10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU 45 - 48

I adrodd ar y cyfarfod a gynhaliwyd 10fed o Dachwedd 2020

**11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 49 - 63

Ystyried yr adroddiad sydd yn amlinellu gwaith archwilio mewnol am y cyfnod hyd at 31 Hydref 2020

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 15/10/2020

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:-** Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Medwyn Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams.

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

**Swyddogion:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Siân Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp – Cyfalaf a Rheolaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Ian Howse (Deloitte)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2020/21.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2020/21.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Charles W.Jones.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2020 fel rhai cywir.

**7. CYFRIFON TERFYNOL – CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (ôl-archwiliad), adroddiad 'ISA260' Deloitte a'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte), cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.

Nododd y Pennaeth Cyllid y bu i'r pwyllgor dderbyn y cyfrifon cyn-archwiliad ar 23 Gorffennaf, ond bod Deloitte wedi tynnu sylw yn hwyr yn y dydd at yr angen i wneud mân newid i ddau ffigur yn ymwneud ag ail-brisio rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, sef newid o amcangyfrif i wirioneddol, ac addasiad cymesur i'r reserfau anefnyddiadwy. Gan hynny, gofynnid i'r pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon, gan ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd ac yntau, fel Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Is-gadeirydd a'r Aelod Cabinet Cyllid, i ardystio'r Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 a'r Llythyr Cynrychiolaeth ar ôl gwneud y mân addasiadau angenrheidiol i'r cyfrifon.

Yna gwahoddwyd Ian Howse i gyflwyno adroddiad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Nodwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Manylwyd ar:-

- Effeithiau Covid-19 ar archwiliad eleni
- Barn Archwilio Arfaethedig
- Materion arwyddocaol yn codi o'r archwiliad, gan gynnwys camddatganiadau nas cywirwyd a chamddatganiadau a gywirwyd a materion arwyddocaol eraill
- Argymhellion

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Holwyd a oedd y materion o brisio gwerth buddsoddiadau mewn cronfeydd eiddo a'r effaith ar y Gronfa Bensiwn yn fater unigryw i Wynedd. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr addasiad yn gyffredin i brisio gwerth buddsoddiadau mewn cronfeydd eiddo holl awdurdodau Cymru, gyda'r effaith ar werth asedau yn y cyfrifon yn ddibynnol ar lefel materoldeb y buddsoddiadau mewn cronfeydd eiddo.
- Gan gyfeirio at Ran 3 o Atodiad C i'r cyfrifon - Trefniadau Llywodraethu a'u Heffeithiolrwydd - Rhanddeiliaid (tud 112 o'r rhaglen), awgrymwyd y dylai'r berthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol fod â sgôr risg llawer uwch na 9, yn enwedig o ystyried effaith Covid-19. Mewn ymateb, eglurwyd fod y pwyllgor wedi cymeradwyo ac ymrwymo i'r rhan hwn o'r datganiad llywodraethu eisoes, ac felly nid oedd modd addasu'r sgôr yn y cyfarfod hwn. Gofynnwyd am ail-edrych ar hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (ôl-archwiliad), yn ddarostyngedig i fân addasiadau pellach yn unol â'r hyn a adroddwyd ar lafar yn y cyfarfod, a dirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Is-gadeirydd a'r Aelod Cabinet Cyllid, i ardystio'r Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 a'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte) ar ôl gwneud y mân addasiadau i'r Cyfrifon.**

**(b) Nodi a derbyn yr adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfrifon 2019/20 Cyngor Gwynedd.**

## 8. CYFRIFON TERFYNOL – CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2019/20 Cronfa Bensiwn Gwynedd (ôl-archwiliad), nodi a derbyn adroddiad 'ISA260' Deloitte a'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte), cyn awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr.

Nododd y Pennaeth Cyllid y bu i'r pwyllgor dderbyn y cyfrifon cyn-archwiliad ar 23 Gorffennaf, ac er y gwnaed rhai mân newidiadau i'r naratif yn dilyn archwiliad gan Deloitte, nid oedd yna unrhyw newid i'r ffigurau. Hefyd roedd y Pwyllgor Pensiynau wedi trafod y cyfrifon yn eu cyfarfod ar 14 Hydref, ac wedi cael rhagflas o adroddiad yr archwilwyr.

Yna gwahoddwyd Ian Howse i gyflwyno adroddiad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Nodwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, yn cynnwys paragraff pwyslais mater ynghylch ansicrwydd prisio cronfeydd eiddo'r DU ar y datganiadau ariannol. Manylwyd ar:-

- Effeithiau Covid-19 ar archwiliad eleni
- Barn Archwilio Arfaethedig
- Materion arwyddocaol yn codi o'r archwiliad, gan gynnwys camddatganiadau nas cywirwyd, camddatganiadau a gywirwyd, risg arwyddocaol ac ardaloedd eraill sy'n derbyn sylw archwilio a materion arwyddocaol eraill
- Argymhellion

Nodwyd bod yr aelodau'n ymhyfrydu yn y ffaith iddynt dderbyn adroddiad mor wych gan yr archwilwyr eleni, a nodwyd bod llawer o'r diolch am hyn i waith y Rheolwr Buddsoddi a'i thîm.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad oedd yn ofyniad ar hyn o bryd i ddatgelu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn y cyfrifon swyddogol statudol, ond y bwriedid cyfeirio at hynny yn yr adroddiad blynyddol fyddai'n cael ei gyflwyno gyda'r cyfrifon i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa ar 19 Tachwedd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2019/20 Cronfa Bensiwn Gwynedd (ôl-archwiliad)**

**(b) Nodi a derbyn yr Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfrifon 2019/20 Cronfa Bensiwn Gwynedd.**

**(c) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte).**

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i Ian Howse a Lauren Parsons am arwain y gwaith ar ran cwmni Deloitte eto eleni. Ychwanegodd mai hwn fyddai'r tro olaf i Ian Howse gyflwyno'r adroddiad ar y cyfrifon yn ei rôl bresennol fel archwiliwr allanol i Wynedd yn y contract yma, gan y byddai'r gwaith yn mynd yn fewnol o'r flwyddyn nesaf ymlaen, a diolchodd iddo am ei waith dros y pum mlynedd ddiwethaf.

## 9. TROSOLWG ARBEDION – ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet ar 13 Hydref, 2020 a sylwebu fel bo angen.

Ar bwynt cyffredinol ar y cychwyn, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Wrth weithredu'r strategaeth arbedion ac arloesi, bod y Cyngor wedi bod yn hynod ffodus, e.e. cyn y pandemig, roedd 138 o ddefnyddwyr yn gallu gweithio o adref, ond erbyn mis Mawrth eleni, roedd 1,292 yn defnyddio offer o adref. Diolchodd i bawb yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth am eu gwaith i sicrhau bod yr holl waith ar gyfer yr eitemau dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn wedi gallu cael ei wneud.
- Y dymunai ddiolch i'r holl staff am y gwaith anhygoel oedd wedi'i gyflawni o fewn amserlen dynn iawn.

Yna gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun i'r adroddiad dan sylw drwy nodi:-

- Bod yna arwyddion clir bod yna drafferthion o ran cyflawni'r arbedion, a bod pryder ynghylch yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Cynllun Dechrau i'r Diwedd yn benodol.

- Er yn sylweddoli ein bod mewn cyfnod heriol, ei bod yn hanfodol ail-afael yn fuan yn y drefn o gyflawni arbedion.

Nodwyd y bu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 13 Hydref, gan benderfynu fel a ganlyn:-

- *Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2020/21, 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.*
- *Cymeradwyo'r cynlluniau amgen a fanylir yn Rhan 6 ac Atodiad 5 i ddisodli cynlluniau hanesyddol nad ydynt yn gwireddu.*
- *Nodi bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth ddilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.*
- *Cefnogi bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.*

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd ei bod yn anodd iawn gwireddu arbedion yr Adran Plant a Theuluoedd a'r Cynllun Dechrau'n Deg, a holwyd a luniwyd amserlen ar gyfer yr adolygiad oedd yn cymryd lle. Mewn ymateb, eglurwyd, er bod y Tasglu Cyllideb Plant wedi cychwyn edrych ar yr arbedion, bu'n rhaid oedi'r gwaith gan fod swyddogion wedi eu tynnu i flaenoriaethau eraill yn ystod yr argyfwng. Fodd bynnag, roedd bwriad i symud ymlaen a cheisio dod i ganlyniad ar hyn. Nodwyd ymhellach bod y niferoedd a'r pwysau ar yr Adran Plant a Theuluoedd wedi cynyddu, ac efallai bod rhagdybiaethau a wnaed ar y pryd wrth bennu'r targed arbedion ar gyfer y gwasanaeth wedi newid erbyn hyn, ond byddai adolygiad y tasglu yn cadarnhau'r sefyllfa.
- Nodwyd bod y gyllideb gofal yn ei chyfanrwydd yn anodd iawn, a phryderid bod yna risg gwirioneddol i blant, ac i oedolion hefyd, os ydym yn ystyried rhagor o doriadau yn y meysydd hyn, yn enwedig yn ystod yr argyfwng. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at benderfyniad y Cabinet i gefnogi bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yr Aelod Cabinet cyfrifol a'r pennaeth yn y pum adran sydd â risgiau i gyflawni'r arbedion hanesyddol. Nid y pandemig oedd yr unig rwystr, ac roedd y Cyngor wedi bod yn brwydro i ddarganfod arbedion ers bron i 15 mlynedd, gyda'r sefyllfa'n mynd yn gynyddol anodd wrth i amser basio. Roedd natur y galw wedi newid o ran dwysedd gofynion plant a theuluoedd anghenus, ac wedi dwysau ymhellach yn ystod yr argyfwng. Wrth drafod gyda'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid, byddai'n rhaid pwyso a mesur yr angen i ganfod arbedion yn erbyn anghenion y gwasanaeth a phobl Gwynedd, gan wneud hynny mewn ffordd gydymdeimladol. Hefyd, oherwydd y pwysau ar y gwasanaethau i ddygymod yn ystod yr argyfwng, nid oedd y Cabinet wedi cefnogi mynd ati i restru arbedion a thoriadau eto yn y cyfnod hwn, gan aros i weld beth fyddai yn y setliad drafft ym mis Rhagfyr.
- Mynegwyd pryder y byddai'r ail don o Covid-19 yn anodd iawn ar deuluoedd, gyda llawer o bobl yn colli eu swyddi.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynllun Priffyrdd a Bwrdeistrefol i drosglwyddo meysydd chwarae i eraill (tud 191 o'r rhaglen), eglurwyd, er bod rhai o'r cynlluniau yn symud yn eu blaenau, bod y pandemig wedi arafu'r broses honno.
- Cyfeiriwyd at y cynllun i newid trefniadau gweithredu'r canolfannau ailgylchu a chodi ffioedd (tud 193 o'r rhaglen), a phwysleisiwyd pwysigrwydd y canolfannau ailgylchu i'r trigolion. Mewn ymateb, eglurwyd bod y cynllun i newid trefniadau gweithredu'r canolfannau ailgylchu yn disodli'r ddau gynllun hanesyddol i godi ffi ar fasnachwyr a chodi ffi ar waredu gwastraff DIY.

- Croesawyd bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i edrych ar yr arbedion gyda'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid, a mynegwyd gobaith y byddai yna edrych ar y sefyllfa'n ofalus cyn ystyried gwneud i ffwrdd ag unrhyw adnodd neu wasanaeth. Nodwyd hefyd, pe gwelid, maes o law, bod angen ail-sefydlu adnodd, byddai'r gost o wneud hynny'n uchel.
- Nodwyd y byddai unrhyw fwriad i godi tâl am ddefnyddio canolfannau ailgylchu yn arwain at lai o ddefnydd o'r adnodd, a mwy o dipio slei bach. Mewn ymateb, nodwyd na allai'r swyddogion cyllid ateb yn llawn ar bob cynllun, a bod yr Aelodau Cabinet a'r penaethiaid yn cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr, neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, a'r aelodau craffu perthnasol. Roedd yna graffu ar yr arbedion yn digwydd mewn ffyrdd gwahanol, a gofynnwyd i'r aelodau ymddiried yn y swyddogion i gael y balans cywir wrth symud ymlaen ar hynny. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Cyllid nad oedd cyfeiriad yma at doriad yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, ac na ddylai arbedion effeithio ar y gwasanaeth i'r dinesydd. Roedd yn gyfnod heriol i bawb, ond sicrhaodd yr aelodau y byddai yna edrych ar sefyllfa'r adrannau mewn ffordd gydymdeimladol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth, nodi'r risgiau sy'n deillio o lithriadau gyda rhai o'r cynlluniau arbedion, a chefnogi penderfyniadau perthnasol y Cabinet.**

## 10. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet ar 13 Hydref, 2020 a sylwebu fel bo angen.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Bod yr adroddiad hwn eto'n dangos effaith y pandemig a'r pwysau ar yr adrannau.
- Bod Atodiad 1 i'r adroddiad yn bwysig, gan ei fod yn dangos y derbyniadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fesul adran, ac yn cyfleu'r sefyllfa'n hollol glir i'r aelodau.

Nodwyd y bu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 13 Hydref, gan benderfynu fel a ganlyn:-

- *Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2020 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.*
- *Nodi effaith ariannol Covid-19, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth ddilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.*
- *Cefnogi bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.*
- *Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan fod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb,*
- *Nodi fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr Adran Plant a Theuluoedd fel bod modd mynd at wraidd gorwariant yr Adran, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet fydd yn manylu ar y cynllun ymateb.*
- *Cymeradwyo yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2).*

- *Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:*
  - *(£250k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.*
  - *tanwariant net o (£1,127k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid-19.*
- *Fod derbyniadau grant ar gyfer digolledu gwariant ychwanegol a cholledion incwm cysylltiedig â'r argyfwng Covid-19 gan y Llywodraeth yn cael ei ddyrannu i'r adrannau perthnasol yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1.*

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Gan gyfeirio at y tabl ar dudalen 221 o'r rhaglen, sylwyd bod yna £1m o wahaniaeth rhwng cyfanswm gwerth y cais am grant o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru a chyfanswm y grant a dderbyniwyd, a holwyd a oedd yna ragor o grant ar ei ffordd, neu a ddisgwylid i'r Cyngor ei ysgwyddo. Mewn ymateb, eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhai ceisiadau, ac yn dal yn ôl cyn talu rhai eraill. E.e. roedd hawliadau taliadau cinio ysgol am ddim wedi'u dal yn ôl ers Awst, ac yn werth £200,000 erbyn hyn, ond roedd y Cyngor yn disgwyl derbyn yr arian. Ychwanegwyd ei bod yn glod i'r Uwch Reolwr Cyllid a'i thîm bod Gwynedd ymhlith y 6 awdurdod uchaf o safbwynt y swm y llwyddwyd i'w dynnu i lawr o'r Grant Caledi Cofid o'r Llywodraeth, a'r gorau yng Nghymru o safbwynt y swm sy'n cael ei wrthod, gyda'r swm lleiaf wedi cael ei wrthod. Roedd dull y Cyngor hwn o roi'r wybodaeth ymlaen wedi'i ganmol gan y Llywodraeth fel dull dealladwy, ac roedd Gwynedd yn llwyddo i gael yr arian yn gynt na chynghorau eraill oherwydd hynny. Nodwyd hefyd bod dros £400,000 wedi'i wario ar liniaduron i alluogi i staff weithio o adref ers mis Mawrth, ac y llwyddwyd i gael hanner y gost yma'n ôl o'r gronfa. Roedd hyn yn gryn lwyddiant, o gofio y byddai'r gliniaduron hyn yn ased i'r Cyngor i'r dyfodol.
- Eto, gan gyfeirio at y tabl ar dudalen 221 o'r rhaglen, sylwyd na dderbyniwyd unrhyw grant ar gyfer mis Awst, a holwyd a oedd yn wir i dybio y disgwylid derbyn grant o £800,000 (h.y. bod y bwlch rhwng yr hyn yr ymgeisiwyd amdano a'r hyn fydd yn cael ei dderbyn ond tua £200,000), neu oedd yna broblem gyda chais mis Awst. Mewn ymateb, eglurwyd mai mater o amseriad oedd hyn ac y disgwylid gwybodaeth yn ôl gan Lywodraeth Cymru o ran y cais yma. Roedd Llywodraeth Cymru yn asesu ceisiadau holl gynghorau Cymru, ac felly roedd yna oediad rhwng amser cyflwyno cais, a derbyn gwybodaeth bod y cais hwnnw wedi'i gymeradwyo a thalu'r arian drosodd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhawyd y disgwylid derbyn swm y cais yn yr achos hwn.
- Croesawyd bwriad y Prif Weithredwr i gymryd gafael eto ar y Tasglu Cyllideb Plant, a holwyd a fyddai modd defnyddio casgliadau'r gwaith hwn i bwyso a thrafod gyda'r Llywodraeth, a gyda chynghorau eraill, i weld oes lle i ail-ymweld â'r gyllideb sy'n dod o'r Llywodraeth ar gyfer y maes yma'n benodol. Mewn ymateb, eglurwyd bod Cymdeithas Trysoryddion Cymru wedi llunio arolwg i geisio casglu gwybodaeth am y pwysau a'r galw yn y maes plant ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn rhoi hyn ar radar y Llywodraeth. Fodd bynnag, heb wybod beth oedd canlyniad arolwg gwariant un flwyddyn Llywodraeth y DG, a beth fyddai'r setliad i Gymru, nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ymrwymo i unrhyw beth ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth, nodi'r risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

## 11. RHAGLEN GYFALAF 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet ar 13 Hydref, 2020, a sylwebu fel bo angen.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Mai'r prif bwynt yn yr adroddiad hwn eto oedd effaith Covid-19 ar gynlluniau, ond pwysleisiodd, er bod yna ail-broffilio, nad oedd yna golled ariannu.
- Bod y tabl yn rhan 3 ar dudalen 224 o'r rhaglen gyfalaf yn dangos buddsoddiad o dros £100m yng nghymunedau'r sir dros y tair blynedd nesaf.

Nodwyd y bu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 13 Hydref, gan benderfynu fel a ganlyn:-

- *Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2020) o'r rhaglen gyfalaf.*
- *Cymeradwyo ariannu addasiadau a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:*
  - *defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £3,646,000 o 2019/20,*
  - *lleihad o £558,000 mewn defnydd o fenthyca,*
  - *cynnydd o £7,105,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,*
  - *dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,*
  - *cynnydd o £53,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,*
  - *dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a*
  - *cynnydd o £283,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.*

- Llongyfarchwyd yr adrannau ar ddenu grantiau sylweddol i Wynedd.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod cyfran helaeth o'r £11m o raglen cyfalaf tai ac eiddo yn mynd tuag at y Cynllun Gweithredu Tai. Roedd bwriad yn wreiddiol i'r cynllun fod yn weithredol erbyn hyn, ond roedd y pandemig wedi dal y broses yn ôl. Byddai'r cynllun yn mynd gerbron y Cabinet yn ystod mis Tachwedd. Yn amlwg, ni fyddai'r holl swm yn cael ei wario eleni gan fod yr argyfwng wedi golygu gohirio rhai o'r cynlluniau.
- Nodwyd bod y Cynllun Gweithredu Tai yn adroddiad calonogol ac uchelgeisiol, a mawr obeithid y byddai'n dwyn ffrwyth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth, nodi'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, a chefnogi penderfyniadau perthnasol y Cabinet.**

## 12. STRATEGAETH CYLLIDEB 2021/22

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r ansicrwydd yng nghyswllt cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, a sylwebu ar y strategaeth.

Gosododd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyd-destun i'r adroddiad. Pwysleisiodd bwysigrwydd y seminarau rhithiol ar y gyllideb i aelodau ym mis Ionawr, a phwysodd ar bawb i bresenoli eu hunain yn y sesiynau.

Nodwyd y bu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad yn eu cyfarfod ar 13 Hydref, gan benderfynu fel a ganlyn:-

*Cymeradwywyd y drefn ac amserlen llunio Cyllideb 2021/22, wrth nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a chronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhoi ystyriaeth ddwys a diangen i restrau o arbedion a thoriadau Gwasanaeth dichonol yn ystod ail don tebygol o'r pandemig Covid-19.*

Nododd y Pennaeth Cyllid, ymhellach i'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, iddo erfyn ar Lywodraeth Cymru yn y dyddiau diwethaf i ymlynu at y gyllideb ddrafft eleni, neu fel arall, byddai'n amhosib' cynllunio ar gyfer 2021/22.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pholisi'r Cyngor o ran balansau, eglurwyd bod cadw arian wrth gefn yn rhan o ddarlun ehangach. Roedd yn ddibynnol ar faint o risg sy'n cael ei roi i mewn i gyllidebau yn nhermau pethau fel darpariaeth ar gyfer chwyddiant a materion sydd ddim yn wybodus. Roedd llawer o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hymrwymo i bwrpasau penodol, ond roedd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £8m, oedd yn sylfaenol yn adlewyrchu'r risg o doriad posib' yng ngrant y Cyngor. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd y Cyngor wedi cadw at y swm yma, rhag ofn bod mewn sefyllfa o orfod prynu amser i ddelio â'r angen i ddarganfod arbedion a thoriadau.
- Holwyd a roddwyd ystyriaeth i fenthyg arian i lenwi'r bwlch yn y tymor byr, gan fod cyfraddau llog mor isel ar hyn o bryd. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y rheoliadau'n caniatáu benthyg i bwrpasau refeniw, heblaw bod Llywodraeth Cymru'n caniatáu Gorchymyn Cyfalafu. Roedd ambell gyngor arall wedi bod yn galw am hynny yng Nghymru, ond ni wnaed unrhyw ddatganiad ar hynny hyd yma. Hefyd, yn unol ag ysbryd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ni ddymunid pasio problemau ymlaen i'r genhedlaeth i ddod, ac roedd yn well ceisio cyfarch y broblem o'r reserfau sydd ar gael.
- Nodwyd, os defnyddio'r arian wrth gefn, y dylid sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hadfer yn y blynyddoedd wedyn, a phwysleisiwyd bod yr argyfwng presennol wedi tanlinellu gwerth y cronfeydd wrth gefn.
- Nodwyd bod Llywodraeth y DG wedi achosi anhawster o ran sefydlu cyllideb drwy ddileu'r Gyllideb Hydrefol, er y deellid eu rhesymau dros wneud hynny yn yr amgylchiadau. Fodd bynnag, roedd hynny wedi arwain at drosglwyddo'r broblem i Lywodraeth Cymru, oedd, yn eu tro, wedi trosglwyddo'r broblem i'r cynghorau. Cytunid nad oedd yn briodol neilltuo amser staff i chwilio am arbedion a hwythau dan bwysau yn delio â'r argyfwng. Credid bod y ffactorau hyn yn golygu bod dyletswydd foesol ar y ddwy lywodraeth i sicrhau nad oes toriadau yn y grant a bod y setliad terfynol yn ddigonol, ac roedd yn bwysig bod y Cyngor yn datgan hyn yn glir. Roedd y pandemig wedi dangos pa niweidiol fu'r toriadau i'r sector gyhoeddus dros y deng mlynedd ddiwethaf, yn enwedig ym maes iechyd, ond mewn meysydd eraill yn ogystal, ac nid oedd yr isadeiledd cyhoeddus trwy Gymru a Phrydain yn ddigonol i wynebu'r sialensiau a wynebir.
- Holwyd a oedd peryg' i'r Llywodraeth ddyrannu llai o grant i gyngor sydd ag arian wrth gefn. Mewn ymateb, eglurwyd mai ffactorau megis newid mewn poblogaeth, nifer disgyblion ysgol, henoed, ayb, oedd yn gyrru gwahanol elfennau'r fformiwla.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth, nodi'r ansicrwydd yng nghyswllt cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, a chefnogi'r strategaeth i fantoli'r gyllideb drwy ddefnyddio cyllidebau a chronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhoi ystyriaeth ddwys a diangen i restrau o arbedion a thoriadau gwasanaeth dichonol yn ystod ail don debygol o'r pandemig Covid-19.**

## 13. BLAENRAGLEN PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn rhoi amlinelliad o raglen waith y pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Orffennaf, 2021.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Sylwyd bod Trosolwg Arbedion i lawr ddwywaith ar y blaen-raglen (cyfarfodydd Chwefror a Mai)

- Holwyd a oedd bwriad i'r pwyllgor dderbyn adroddiad, maes o law, ar y cynlluniau Tasglu Plant ac Oedolion yn benodol, yn ddibynnol ar amserlen y gwaith. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'n rhaid gwirio lle'n union roedd hyn yn disgyn rhwng y pwyllgor hwn a chraffu'r adran berthnasol, ond rhoddwyd sicrwydd y byddai'n derbyn sylw. Pe na fyddai'n eitem ar ei phen ei hun, byddai'n derbyn sylw teilwng yn yr adroddiad Trosolwg Arbedion.
- Sylwyd bod cyfarfod Chwefror yn hynod drwm. Mewn ymateb, nodwyd bod y cyfarfod yn drwm oherwydd y drefn flynyddol, ond gellid rhoi ystyriaeth i ail-raglennu'r hunanasesiadau.
- Holwyd a fyddai'n bosib' i'r pwyllgor dderbyn tystiolaeth cyn trafod yr hunanasesiadau. Mewn ymateb, cytunwyd i roi ystyriaeth i hynny, a gofynnwyd i'r aelod a gododd y mater basio unrhyw awgrymiadau ymlaen i'r swyddogion.
- Awgrymwyd nad oedd y pwyllgor yn trafod polisïau'n gyffredinol, e.e. polisi benthyca. Mewn ymateb, eglurwyd bod benthyca yn dod o dan Reolaeth Trysorlys, ac y byddai benthyca'n rhan o'r cyflwyniad blynyddol gyda'r Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD derbyn y blaen raglen, gan ofyn i swyddogion ystyried sylwadau a nodwyd yn ystod y cyfarfod fod rhaglen 11 Chwefror, 2021 yn rhy swmpus, fod angen sicrhau tystiolaeth cyn trafod hunanasesiadau, ac y dylid ystyried y posibilrwydd o fenthyg yng nghyflwyniad blynyddol yr Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys ar 27 Ionawr, 2021.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12.20yp

____________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| DYDDIAD | **30 Tachwedd 2020** |
| TEITL | **Llythyrau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
| PWRPAS | **Cyflwyno 2 lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, dyddiedig 30 Medi 2020 -**<br>• **Cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 1)**<br>• **Cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 2)** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1.** Anfonwyd y llythyr gyntaf (**Atodiad 1**) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at brif weithredwyr cynghorau Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn dilyn derbyn sylwadau ar ddyfyniadau allan o adroddiadau lleol i gynghorau Conwy a Sir Ddinbych oedd yn cynnwys cyfeiriad at Cyngor Gwynedd fel un o awdurdodau lleol rhanbarth gogledd Cymru.

**2.** Anfonwyd yr ail lythyr (**Atodiad 2**) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Dr Andrew Goodall CBE, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru yn Llywodraeth Cymru, yn dilyn cwblhau dau adolygiad yn edrych ar ofal preswyl a nyrsio yng ngogledd Cymru, yn benodol yng nghyngorau Conwy a Sir Ddinbych.

**3.** Mae gan Archwilio Cymru ac awdurdodau lleol Cymru wahanol safbwyntiau ar hyn, a pwysleisiaf nad ‘mater Cyngor Gwynedd’ yw hwn. Ynghyd â rhanbarthau eraill ar olion traed pob bwrdd iechyd, mae rhanbarth gogledd Cymru wedi sefydlu datrysiad pragmataidd i’r broblem gyllideb gyfun a grëwyd gan ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**4.** Tra’n ymddangos yn hurt tu allan i’w gyd-destun, mae’r camau pragmataidd a gymerir yma’n caniatáu i awdurdodau lleol y rhanbarth hwn gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Roedd y ddeddfwriaeth hynny’n creu pryder am atebolrwydd a nodwyd risg y byddai'r gyllideb cyfun yn rhy fawr i'w reoli'n effeithiol.

**5.** Yn ymarferol, mae cyfnewid arian bob chwarter yn darparu gwerth am arian trwy osgoi pasio rheolaeth dros ran sylweddol o gyllidebau ein hawdurdodau. Mae hefyd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ac yn adnabod maint y gweithrediadau perthnasol ar draws y rhanbarth. Yn anffodus, mae'r ddeddfwriaeth genedlaethol yn rhoi'r drol (cyllideb cyfun) o flaen y ceffyl (trefniadau gweithio cwbl integredig a llywodraethu priodol), tra bod yr ymateb rhanbarthol yn isafu'r risg yn ddoeth.

**6.** Rwy'n gobeithio bod yr eglurhad hwn yn helpu aelodau'r pwyllgor i ddeall y rhesymau y tu ôl i ddatrysiad pragmatig ein rhanbarth.  Ymhellach, hyderaf y bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi y byddai angen i ni ailystyried cytundebau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn sawl rhanbarth o Gymru cyn gweithredu unrhyw newid, yn ogystal ag ail-gynnau trafodaethau sensitif gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.

**7.** **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi sefyllfa awdurdodau lleol a bwrdd iechyd y rhanbarth, ymhellach i lythyrau yr Archwilydd Cyffredinol.

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Prif Weithredwyr:
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Cyfeirnod:** AC/214/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Medi 2020

Annwyl Dilwyn

## Cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal

Cysylltodd fy staff â chi ar y 30ain o Orffennaf 2020, yn gwahodd sylwadau ar ddyfyniadau allan o adroddiadau lleol i gynghorau Conwy a Sir Ddinbych oedd yn cynnwys rhai cyfeiriadau at eich sefydliad chi. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn ddefnyddiol ac rydym yn awr wedi cwblhau'r adroddiadau. Mae copïau o'r adroddiadau terfynol hyn ynghlwm.

Er mai ar drefniadau lleol yng Nghonwy a Sir Ddinbych y mae'r adroddiadau hyn yn edrych yn bennaf, maent hefyd yn codi rhai pryderon penodol ynglŷn â chronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Fel y gwyddoch, partneriaeth yw'r gronfa gyfun ranbarthol hon rhwng pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cawsom nad yw cronfa gyfun Gogledd Cymru, yn ymarferol, yn ddim namyn dull o drosglwyddo arian yn ôl ac ymlaen rhwng daliwr y gronfa gyfun a'r rhai sy'n cyfrannu iddi. Daethom i'r casgliad nad yw'r gronfa gyfun yn cynnig gwerth am arian nac yn sicrhau unrhyw un o'r manteision a fwriadwyd drwy gronfa gyfun.

Gyda golwg ar drefniant y gyllideb gyfun fe wnaethom gynnig i'r ddau gyngor y **dylent ymgysylltu â phartneriaid i adolygu trefniant y gyllideb gyfun bresennol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, er mwyn sicrhau bod arian a drosglwyddir rhwng cyrff cyhoeddus yn dod â budd pendant megis comisiynu gofal cartrefi preswyl a nyrsio mewn ffordd well a mwy integredig.**

Teimlaf ei bod yn bwysig tynnu hyn i'ch sylw gan na all cynghorau Conwy a Sir Ddinbych weithredu ar y cynnig hwn ar gyfer gwelliant ar eu pen eu hunain. Mae'r cynnig hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid sy'n cyfrannu i'r gronfa gyfun ac fel y cyfryw mae angen i'r partneriaid i gyd wneud eu rhan i sicrhau gwelliant.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd ganddynt hwy ynghylch y camau y bwriadant eu cymryd i gefnogi cyflawniad cronfeydd cyfun yng Nghymru'n well.

Fel rhan o'n gweithgareddau parhaus, mae'n fwriad gennym fonitro sut y bydd cynghorau Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r gronfa gyfun.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar y gwaith hwn, cysylltwch â Jeremy Evans neu Andrew Doughton, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Iwan Davies, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ddinbych
Albert Heaney, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

Huw Rees, Dave Thomas, Cyfarwyddwyr, Archwilio Cymru
Jeremy Evans, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru
Andrew Doughton, Arweinydd Archwilio, Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales /
post@archwilio.cymru

Dr Andrew Goodall CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol –
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru

**Cyfeirnod:** AC/211/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Medi 2020

Annwyl Andrew

## Cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal

Cwblhaodd fy staff ddau adolygiad yn ddiweddar yn edrych ar ofal preswyl a nyrsio yng Ngogledd Cymru, yn benodol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych. Fel rhan o'r gwaith hwn, bu fy nhîm yn siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru yn eich Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio i gael gwybodaeth ar gyfer y gwaith, ac eto wrth glirio'r adroddiadau. Mae copïau o'r adroddiadau hyn ynghlwm.

Er mai ar drefniadau lleol yn bennaf y mae'r adroddiadau hyn yn edrych, maent hefyd yn codi rhai pryderon penodol ynglŷn â chronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Partneriaeth yw'r gronfa gyfun ranbarthol hon rhwng pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Canfuom, er bod cyllid gan y sefydliadau perthnasol yn cael ei adneuo i ddechrau mewn cronfa gyfun, a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych, fod yr arian yn cael ei ddychwelyd i bob cyfrannwr 24 awr yn ddiweddarach. Wrth siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru, deallwn fod hyn yn bodloni'r gofynion technegol lleiaf posibl dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, am resymau amlwg, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw hyn yn cynnig gwerth am arian nac yn sicrhau unrhyw un o'r manteision a fwriadwyd drwy gronfa gyfun.

Er nad yw Archwilio Cymru wedi rhoi prawf ar y trefniadau mewn rhanbarthau eraill, deallwn eu bod o natur gyffelyb. Efallai bod hyn wedi cael ei nodi yn eich adolygiad ar weithredu cyllidebau cyfun fel rhan o Fframwaith Gwerthuso'r Cyllidebau Cyfun, y deallwn y ceir adroddiad ganddo cyn bo hir.

Dymunaf dynnu eich sylw at y mater hwn oherwydd ei fod yn codi rhai pryderon sylweddol ynghylch y defnydd ymarferol o gyllidebau cyfun ar gyfer darparu cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru ac yn ehangach, o bosibl, yng Nghymru. Ymddengys bod yr hyn y sylwasom arno yng Ngogledd Cymru yn syrthio'n fyr o gryn ffordd o fanteision ehangach cyllidebau cyfun, oedd yn cael eu rhagweld drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn croesawu gwybodaeth am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac unrhyw argymhellion penodol sydd wedi deillio o waith a wnaed fel rhan o Fframwaith Gwerthuso'r Cyllidebau Cyfun.

Bydd y symiau o arian cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn ledled Cymru yn dod i rai cannoedd o filiynau o bunnau. Byddwch felly'n deall fy mod yn chwilio am rywfaint o sicrwydd bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais ar gyfer y cronfeydd cyfunol hyn mewn ffyrdd sy'n cynrychioli gwerth am arian ac sy'n sicrhau'r manteision a fwriadwyd i ddefnyddiwr y gwasanaeth yn y pen draw.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Albert Heaney, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020, arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn is na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2020/21.**

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor, gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2020. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae Cod Darbodus 2017 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodeb wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Cymeradwywyd Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, sy'n cydymffurfio gyda gofynion CIPFA ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor llawn hefyd ar 5 Mawrth 2020.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y cefndir economaidd:** Roedd lledaeniad y pandemig coronafirws yn dominyddu yn ystod y cyfnod wrth i wledydd ledled y byd geisio rheoli'r weithred gydbwyso o gyfyngu trosglwyddiad y firws wrth leddfu mesurau cloi a chael eu poblogaethau a'u heconomïau i weithio eto. Ar ôl ychydig o fisoedd cymharol dawel o newyddion Brexit, roedd yn ôl yn y penawdau tuag at ddiwedd y cyfnod gan fod cytundeb rhwng y DU a'r UE ar fargen fasnach yn edrych yn anodd a daeth y llywodraeth ar dan, gartref a thramor, wrth iddi geisio basio'r Mesur y Farchnad Fewnol a allai ddiystyru'r fargen Brexit y cytunwyd arni, gan dorri cyfraith ryngwladol o bosibl.

Cynhaliodd Banc Lloegr (BoE) Gyfradd Banc ar 0.1% a'i raglen Lliniaru Meintiol ar £745 biliwn. Nid oedd llunwyr polisi BoE yn diystyru'r defnydd posibl o gyfraddau llog negyddol, ond yna gwnaeth sylw yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ym mis Medi fod y banc canolog yn edrych yn galetach ar ei effaith bosibl nag a awgrymwyd o'r blaen peri syndod i farchnadoedd ariannol.

Parhaodd mentrau'r llywodraeth i gefnogi'r economi, gyda'r cynllun ffyrlo (Cadw Swyddi Coronafirws) yn cadw bron i 10 miliwn o weithwyr mewn swyddi, grantiau a benthyciadau i fusnesau a 100 miliwn o brydau gostyngedig yn cael eu hawlio yn ystod y cynnig 'Bwyta Allan i Helpu Allan'.

**Marchnadoedd ariannol:** Parhaodd marchnadoedd ecwiti â'u hadferiad, gyda'r Dow Jones yn dringo i ddim yn bell o'i anterth cyn yr argyfwng, er bod perfformiad yn cael ei yrru gan lond llaw o stociau technoleg gan gynnwys Apple a Microsoft, gyda'r cyntaf i fyny 75% yn 2020. Mae'r FTSE 100 a 250 wedi cyfrif am oddeutu hanner eu colledion ar anterth y pandemig ym mis Mawrth. Mae pecynnau ysgogiad banc canolog a llywodraeth yn parhau i gefnogi prisiau asedau, ond mae anweddolrwydd hefyd yn parhau.

**Adolygiad credyd:** Lleihaodd lledaeniadau cyfnewidiad diffygdalu credyd (CDS) dros y rhan fwyaf o'r cyfnod ond yna dechreuon nhw gynyddu eto trwy fis Medi. Yn y DU mae'r ymlediadau rhwng endidau wedi'u clustnodi ac endidau heb eu clustnodi yn parhau, ac eithrio'r banc manwerthu Santander UK lle arhosodd lledaeniad CDS yn uchel a'r uchaf o'r rhai yr ydym yn eu monitro ar 85bps tra bod Standard Chartered yr isaf ar 41 bps. Ar hyn o bryd mae'r banciau wedi'u clustnodi yn masnachu rhwng 45 a 50 bps.

Ar ôl ail chwarter prysur y flwyddyn galendr, mae'r cyfnod dilynol wedi bod yn gymharol dawel ar gyfer newidiadau credyd yr enwau ar ein rhestr gwrthbartïon. Neilltuodd Fitch sgôr adnau AA i fenthyciwr yr Iseldiroedd Rabobank gyda rhagolwg negyddol a chyn hynny, er nad oedd yn gysylltiedig â'n rhestr gwrthbartïon ond yn eithaf arwyddocaol, adolygodd y rhagolygon ar economi'r UD i Negyddol o Stabl tra hefyd yn cadarnhau ei sgôr AAA.

Mae yna lawer o ansicrwydd o hyd ynghylch maint y colledion y bydd banciau a chymdeithasau adeiladu yn eu dioddef oherwydd yr effaith o'r pandemig coronafirws ac i sefydliadau'r DU ar ein rhestr mae cymhlethdod ychwanegol o ddiwedd cyfnod trosglwyddo Brexit ar 31ain Rhagfyr a sut olwg fydd ar fargen fasnach neu beidio. Mae'r sefydliadau ar restr gwrthbartïon Arlingclose a'r hyd a argymhellir yn parhau i

gael eu hadolygu'n gyson, ond ar ddiwedd y cyfnod ni wnaed unrhyw newidiadau i'r enwau ar y rhestr na'r hyd uchaf a argymhellir o 35 diwrnod.

## 3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £27.4m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

**Crynodeb o'r Fantolen –**

| | **31.3.20 Gwir £m** |
|---|---|
| CFR Cronfa Gyffredinol | 177.1 |
| Llai : *Ymrwymiadau dyled eraill | (2.0) |
| **CFR Benthyciadau** | **175.1** |
| Benthyciadau allanol | (124.9) |
| **Benthyciadau mewnol** | **50.2** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (78.0) |
| Llai: Cyfalaf Gweithredol | 0.4 |
| **Buddsoddiadau net** | **27.4** |

* lesau cyllido, ymrwymiadau PFI

Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2020 a'r newid yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | **31.3.20 Balans £m** | **Symudiad 6 mis £m** | **31.9.20 Balans £m** | **31.9.20 Cyfradd %** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau tymor hir | 104.3 | 0.2 | 104.5 | 5.5 |
| Benthyciadau tymor byr | 20.6 | (15.1) | 5.5 | 3.2 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **124.9** | **(14.9)** | **110.0** | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 12.9 | 18.1 | 31.0 | 1.2 |
| Arian a Chywerthydd arian | 14.9 | 17.2 | 32.1 | 0.1 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **27.8** | **35.3** | **63.1** | |
| **Sefyllfa net** | **97.1** | **(50.2)** | **46.9** | |

## 4. Y STRATEGAETH BENTHYCA

Ar 30 Medi 2020, roedd gan y Cyngor £104.4m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol, £4.0m o fenthyciadau at ddibenion llif arian a £1.6m ar gyfer prosiectau penodol. Crynhoi'r benthyciadau sy'n ddyledus ar 30 Medi yn tabl isod.

**Sefyllfa Benthyca**

| | 31.3.20 Balans £m | Symudiad 6 mis £m | 30.9.20 Balans £m | 30.9.20 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 88.2 | 0.0 | 88.2 | 5.8 |
| Banc (tymor hir) | 16.2 | 0.0 | 16.2 | 4.2 |
| Awdurdodau Lleol | 19.0 | (15.0) | 4.0 | 1.6 |
| Prosiectau Penodol | 1.5 | 0.1 | 1.6 | 0.0 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **124.9** | **(14.9)** | **110.0** | |

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Gyda chyfraddau llog tymor byr yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau tymor hir, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor agos i ddefnyddio adnoddau mewnol a benthyca benthyciadau tymor byr yn lle. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf incwm buddsoddi a ildiwyd) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

**Diweddariad Benthyca**

Ar 9 Hydref 2019 cododd PWLB y gost benthyca cyfradd sicrwydd i 1.8% yn uwch na chynhyrchion gilt y DU gan ei gwneud yn gymharol ddrud. Mae dewisiadau amgen ar gael i'r farchnad, ond bydd cryfder ariannol awdurdodau unigol yn cael ei graffu gan fuddsoddwyr a benthycwyr masnachol.

Roedd datganiad Cyllideb Mawrth 2020 y Canghellor yn cynnwys newidiadau sylweddol i bolisi'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a lansiodd ymgynghoriad eang ar gyfeiriad PWLB yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad o'r enw "Telerau Benthyca'r Dyfodol" yn caniatáu i randdeiliaid gyfrannu at ddatblygu system lle gellir darparu benthyciadau PWLB ar ymylon gwell i gefnogi prosiectau cymwys. Mae'n cynnwys cynigion i ganiatáu i awdurdodau nad ydynt yn ymwneud â gweithgaredd "dyled am gynnyrch" fenthyca ar gyfraddau is yn ogystal ag atal awdurdodau lleol rhag defnyddio benthyciadau PWLB i brynu asedau masnachol yn bennaf ar gyfer cynnyrch. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn torri'r

posibilrwydd o arafu, neu stopio, awdurdodau unigol rhag benthyca symia mawr mewn amgylchiadau penodol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Gorffennaf 2020 a disgwylir cyhoeddiad a gweithrediad y telerau benthyca diwygiedig yn rhan olaf y flwyddyn galendr hon neu'n gynnar y flwyddyn nesaf.

## 5. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

Ers mis Ebrill, mae'r Cyngor wedi derbyn arian gan lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig yn ystod y pandemig coronafirws trwy gynlluniau grant. Derbyniwyd £62m, wedi'i fuddsoddi dros dro mewn offerynnau hylif byr-ddyddiedig fel cyfrifon galw a Chronfeydd Marchnad Arian. Talwyd £59m erbyn diwedd mis Medi.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefyn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau y Cyngor yn amrywio rhwng £49.6 a £110.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.20 Balans £m | Symudiad 6 mis £m | 30.9.20 Balans £m | 30.9.20 Incwm % |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 8.7 | 5.0 | 13.7 | 0.22 |
| Awdurdodau Lleol | 0.0 | 6.0 | 6.0 | 0.08 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 0.0 | 4.0 | 4.0 | 0.01 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.1 | 20.3 | 29.4 | 0.07 |
| Cronfeydd Cyfun (buddsoddiad gwreiddiol) | 10.0 | 0.0 | 10.0 | 3.30 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **27.8** | **35.3** | **63.1** | |

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y cyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Yng ngoleuni'r argyfwng pandemig a'r tebygolrwydd o alwadau annisgwyl ar y llif arian, mae'r Cyngor wedi cadw mwy o arian parod ar fyr rybudd nag sy'n arferol. Cafodd arian parod hylif ei arallgyfeirio dros sawl gwrthbartïon a Chronfeydd Marchnad Arian i reoli risgiau credyd a hylifedd.

Dalier £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan yr arian hwn, ond maent ar gael i dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun hyd at 30 Hydref 2020 isod:

| STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO | | | GWYNEDD | | | | From: | 21/02/2019 | To: | 31/10/2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
| AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,145,158 | -104,842 | 99,997 | 1.7 | -8.39% | 8.00% | -0.39% | 12.2% |
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,250,328 | -749,672 | 305,882 | 1.7 | -14.99% | 6.12% | -8.88% | 6.2% |
| NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,209,599 | 1,202,221 | -47,779 | 85,516 | 1.7 | -3.82% | 6.84% | 3.02% | 6.3% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 4,783,773 | 1,518,370 | -981,630 | 256,234 | 1.7 | -39.27% | 10.25% | -29.02% | 17.7% |
| GRAND TOTAL | | | 8,116,076 | -1,883,924 | 747,629 | 1.7 | -18.84% | 7.48% | -11.36% | 6.8% |
| | | Unrealised capital loss: | -1,883,924 | | Annualised income return: | | 4.38% | | | |

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £8.116m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £10m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

Adlewyrchwyd y cwympiadau yng ngwerthoedd cyfalaf yr asedau sylfaenol, yn enwedig bondiau ac ecwiti ym mhrisiadau cronfa 31 Mawrth 2020 gyda'r mwyafrif o gronfeydd yn cofrestru enillion cyfalaf negyddol dros gyfnod o 12 mis. Ers mis Mawrth bu gwelliant yn sentiment y farchnad a adlewyrchir mewn cynnydd mewn gwerthoedd cyfalaf ac eithrio'r cronfeydd eiddo lle cafodd delio ei atal ym mis Mawrth 2020. Roedd anamlder cymharol trafodion eiddo ym mis Mawrth wrth i'r pandemig ddwysau yn golygu nad oedd yn bosibl i briswyr fod yn hyderus bod eu prisiadau yn adlewyrchu amodau cyffredinol yn gywir. Er mwyn osgoi risg sylweddol o anfantais i brynwyr, gwerthwyr a deiliaid unedau yn y gronfa eiddo, roedd yn ofynnol i'r cwmni rheoli atal trafodion nes bod y lefel ofynnol o sicrwydd yn cael ei ailsefydlu.

**Meincnodi Buddsoddi**

Mae'r dilyniant o'r metrigau risg ac adenillion fel y dangosir yn y detholiadau o feincnodau buddsoddi chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | Sgôr Risg | Statws Credyd | Datguddiad 'Bail-in' | Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau) | Cyfradd Adennill % |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2020 | 4.99 | A+ | 100% | 31 | 1.97 |
| 30.06.2020 | 4.39 | AA- | 71% | 13 | 0.85 |
| 30.09.2020 | 3.98 | AA- | 74% | 14 | 0.68 |
| **AL tebyg** | **4.41** | **AA-** | **44%** | **177** | **0.40** |
| **Bob AL** | **4.14** | **AA-** | **64%** | **18** | **0.90** |

**Perfformiad Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Gosodwyd incwm buddsoddi yng nghyllideb 2020/21 y Cyngor yn erbyn cefndir economaidd gwahanol iawn. Mae Cyfradd Banc, a oedd yn 0.75% ym mis Chwefror, bellach yn 0.1%, ond bydd y llog a enillir o farchnadoedd arian dyddiedig byr yn sylweddol is. Mewn perthynas ag incwm o gronfeydd strategol y Cyngor a reolir yn allanol, bydd difidendau a dosbarthiadau incwm yn dibynnu yn y pen draw ar lawer o ffactorau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hyd COVID-19 a maint ei effaith economaidd, dyraniadau asedau sectoraidd y gronfa a gwarantau a ddelir.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.4m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn £0.08m. Mae hyn yn seiliedig ar y disgwyliad canlynol:

- Cronfeydd bondiau a chronfa eiddo: 20% yn is
- Cronfeydd incwm aml-asedau: 25% yn is
- Cronfeydd incwm ecwiti: 50% yn is
- Cyfradd dos nos: 0.01%-0.06%

## 6. CYDYMFFURFIO

Arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Yr unig ddangosydd na chyflawnwyd yw Datguddiad Cyfraddau Llog.

**Ffin Dyled**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.20 Gwir | 2020/21 Ffin Gweithredol | 2020/21 Ffin Awdurdodedig | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £124.9m | £110.0m | £184m | £194m | ✓ |
| PFI a Prydlesau Cyllid | £1.7m | £1.7m | £6m | £6m | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **£126.6m** | **£111.7m** | **£180m** | **£200m** | ✓ |

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.20 Gwir | 2020/21 Terfyn | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £7m | £7m | £8m yr un | ✓ |
| Llywodraeth Ganolog y DU | £45.4m | £4m | anghyfyngedig | ✓ |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £0 | £0 | £8m fesul grŵp | ✓ |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £5m | £5m | £20m fesul rheolwr | ✓ |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £0 | £0 | £40m fesul brocer | ✓ |
| Gwledydd tramor | £5m | £4m | £8m fesul gwlad | ✓ |
| Darparwyr Cofrestredig | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | £0 | £0 | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Benthyciadau i Gorfforaethau heb eu raddio | £0 | £0 | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | £40m | £29.4m | Cyfanswm o £40m | ✓ |
| Cronfeydd buddsoddi eiddo tiriog | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar effeithiau refeniw o gynnydd a cwymp o 1% mewn cyfraddau llog, fel a ganlyn:

| Dangosydd risg cyfradd llog | Cyfyngiad 2020/21 | Targed 2020/21 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £374,303 | £324,000 | ✗ |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £5,096 | £23,000 | ✓ |

Ers gosod y dangosydd yma mae'r rhagolygon economaidd ar gyfer cyfraddau llog wedi newid yn llwyr gyda dyfodiad y pandemig byd-eang. Y gyfradd llog ar gyfartaledd a dderbyniwyd ar falansau tymor byr oedd 0.07% yn ystod y cyfnod o chwe mis hyd

at 30 Medi 2020, gyda buddsoddiadau mwy diweddar yn cael eu gwneud mor isel â 0.01%. Gosodwyd yr dangosydd hwn pan oedd y gyfradd sylfaenol yn 0.75% ac felly mae'n rhesymol bod cynnydd o 1% yn cael cymaint o effaith, ac mae'n dangos yr effaith ddifrifol y mae'r pandemig wedi'i chael ar enillion buddsoddiadau.

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Targed | Gwir | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 3.98 | ✓ |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl.

| | 30.9.20 Gwir | 2020/21 Targed | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £53.1m | £10m | ✓ |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Mae'r terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Uchaf | Isaf | Gwir |
|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 25% | 0% | 5.0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 1.4% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 8.6% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 9.9% |
| 10 mlynedd a throsodd | 100% | 0% | 75.1% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Fwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy

orfod ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar.  Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £0m | £0m | £0 |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ |

## 7. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 8. ERAILL

IFRS 16: Mae gweithredu safon gyfrifo newydd SAARh 16 Prydlesau wedi'i ohirio tan 2021/22.

## 9. RHAGOLGON AR GYFER GWEDDILL 2020/21

| | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| Arlingclose Central Case | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 |
| Downside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |

Mae rhagolygon economaidd byd-eang tymor canolig yn wan. Er bod y cyfyngiadau cloi cychwynnol llym wedi lleddfu, nid yw coronafirws wedi'i atal ac mae ail donnau wedi ysgogi mesurau mwy cyfyngol ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y trai a'r llif cyfyngiadau hyn ar weithgaredd arferol yn parhau hyd y gellir rhagweld, o leiaf nes bod brechlyn effeithiol yn cael ei gynhyrchu ac yn bwysig, ei ddosbarthu.

Mae ymatebion banc canolog a llywodraeth fyd-eang wedi bod yn sylweddol ac mewn sawl achos yn barhaus, gan gynnal amodau ariannol, economaidd a chymdeithasol mwy sefydlog nag fel arall. Mae hyn wedi cefnogi adferiad economaidd sylweddol yn Ch3.

Er hynny, bydd graddfa'r sioc economaidd i'r galw, mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus, cyfnodau clo rhanbarthol a llai o gefnogaeth ariannol yn golygu bod cyflymder yr adferiad dilynol yn gyfyngedig. Mae arwyddion cynnar o hyn eisoes yn amlwg yn nata misol GDP a PMI y DU, hyd yn oed cyn y cyfyngiadau diweddaraf.

Bydd y sefyllfa yma yn arwain at fanciau canolog yn cynnal cyfraddau llog isel am y tymor canolig. Yn y DU, mae Brexit yn gymhlethdod pellach. Felly mae Gyfradd Banc yn debygol o aros ar lefelau isel am amser hir iawn, gyda phosibilrwydd penodol o gael ei dorri i ddim. Mae marchnadoedd arian wedi prisio mewn siawns o Gyfradd Banc negyddol.

Bydd cynnyrch tymor hir hefyd yn parhau i fod yn dirwasgedig, wedi'i angori gan gyfraddau polisi banc canolog isel, disgwyliadau ar gyfer cyfraddau a allai fod yn is fyth a disgwyliadau chwyddiant merfaidd. Mae siawns y gall cynnyrch ddilyn llwybr ychydig yn wahanol yn y tymor canolig, yn dibynnu ar ganfyddiadau buddsoddwyr o dwf a chwyddiant, neu os yw'r DU yn gadael yr UE heb fargen.

Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd Banc aros ar y lefel gyfredol o 0.10% a llacio ariannol ychwanegol yn y dyfodol yn fwyaf tebygol trwy brynu asedau ariannol ymhellach (QE). Er nad yw achos canolog Arlingclose dros Gyfradd Banc yn unrhyw newid o'r lefel gyfredol o 0.1%, ni ellir diystyru toriadau pellach i Gyfradd Banc i sero neu hyd yn oed i diriogaeth negyddol yn llwyr.

Disgwylir i gynnyrch gilt aros yn isel iawn yn y tymor canolig. Mae cynnyrch gilt tymor byr yn negyddol ar hyn o bryd a byddant yn aros oddeutu sero neu'n is nes bydd Banc Lloegr yn diystyru Cyfradd Banc negyddol yn benodol neu y bydd rhagolygon twf/ chwyddiant yn gwella.

Mae risgiau anfantais yn parhau yn y tymor agos, wrth i'r llywodraeth leihau ei mesurau cymorth cyllidol, ymateb i'r risg o bydd cyfraddau heintiau'n cynyddu ymhellach a chyfnod trawsnewid Brexit yn dod i ben.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL | **TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDD A GWRTH LWGRWOBRWYO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AM DREFNIADAU ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDD Y CYNGOR, A'R CYNNYDD AR Y RHAGLEN WAITH AM Y TAIR BLYNEDD NESAF** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED A HERIO CYNNWYS YR ADRODDIAD** |

---

**CYFLWYNIAD**

1 Mae "**Risg o Dwyll, Llwgrwobrwyo a/neu Lygredd**" wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r risg yn parhau i gael ei ystyried yn **risg isel** (sgôr 4) yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor, oherwydd:

- **Sgôr o 2 ar gyfer Effaith** (Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion), a
- **Sgôr o 2 ar gyfer Tebygolrwydd** (tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno). Credir fod y tebygolrwydd yn isel gan fod rheolaeth fewnol yn gyffredinol gadarn; mae gwaith Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn.

2 Pwrpas yr adroddiad yma yw:

- Cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am ymchwiliadau twyll y Cyngor.
- Diweddaru'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y cynnydd ar y rhaglen waith Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth Lygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-2022 a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Chwefror 2019

**YMCHWILIADAU TWYLL**

3 Nid yw swyddogion y Cyngor yn ymchwilio i honiadau o dwyll yn ei erbyn ar hyn o bryd.

**RHAGLEN WAITH Y STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH LYGREDD A GWRTH LWGRWOBRWYO**

4 Mabwysiadwyd Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth Lygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Chwefror 2019. Mae'r Strategaeth yn cynnwys wyth o weithrediadau dylid eu cyflwyno yn ystod y tair blynedd er mwyn cryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

ADNABOD RISGIAU NEWYDD

**Gweithrediad: Cynnal gweithdai rheolaidd o swyddogion perthnasol i drafod materion sy'n codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da**

5 Cyflwynwyd cynllun drafft gan y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Chwefror 2020 oedd y ffrwyth gwaith trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) a chyfarfodydd hefo'r penaethiaid adran. Yn sgil y pandemig, fodd bynnag, daeth gwaith yr uned i ben dros dro, a cyflwynwyd cynllun newydd i'r Pwyllgor ar 30 Gorffennaf. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys archwiliadau penodol sy'n ymateb i feysydd a allai fod yn destun twyll yn sgil yr argyfwng.

6 Bydd camau i adnabod risgiau twyll pellach yn parhau, ond yn amlwg bydd unrhyw gyfarfodydd yn digwydd yn rithwir am y dyfodol rhagweladwy.

TWYLL GOSTYNGIAD TRETH CYNGOR

**Gweithrediad: Cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r gwaith o ymchwilio i dwyll Gostyngiad Treth Cyngor**

7 Adroddwyd i'r Pwyllgor yn Tachwedd 2019 fod 3 o swyddogion Budd-dal a 3 o swyddogion Trethi yn gweithio am y cymhwyster CIPFA *Accredited Counter Fraud Technician* (ACFTech). Mae'n dda adrodd fod pob un ohonynt wedi pasio'r cymhwyster. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol yn ein trefniadau atal twyll.

8 Mae'r cymhwyster wedi cael ei achredu gan y Bwrdd Achredu Gwrth Dwyll Proffesiynol ac mae'r swyddogion yn cael eu hadnabod fel "Technegydd Gwrth Dwyll Achrededig". Bydd hwn yn cam pwysig ymlaen i feithrin y sgiliau a chymwysterau sydd yn angenrheidiol er mwyn i'r Swyddogion Budd-dal allu gweithio'n agosach gydag Ymchwilwyr Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

9 Cynhaliwyd Gweithdy ym Mhwllheli ar 12 Chwefror gyda'r Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw a Risg), y Rheolwr Budd-dal a swyddogion Budd-dal er mwyn sefydlu ffordd symud ymlaen i gynnal ymchwiliadau i hawliadau twyllodrus sy'n ymwneud yn benodol â'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor (hawliadau sydd heb elfen o fudd-dal gwladol, a felly ddim yn cael eu hymchwilio gan Ymchwilwyr Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau). Un o brif allbynnau disgwyliedig yr hyfforddiant oedd galluogi swyddogion i gynnal cyfweliadau twyll, a symud ymlaen i gynnig cosb weinyddol, neu erlyn yn yr achosion mwyaf difrifol. Fodd bynnag, er gwaethaf cynllunio camau pellach, nid yw amgylchiadau eleni wedi caniatáu i gamau pellach gael eu cymryd fel a ddisgwyliwyd.

10 Pan gyflwynwyd y Strategaeth i'r Pwyllgor yn Chwefror 2019, roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau fod Twyll Treth Cyngor yn cael sylw hefyd. Bydd cymhwyso swyddogion Trethi yn eu galluogi i feithrin eu sgiliau ymchwilio twyll hwythau hefyd.

CANOLFAN GWRTH DWYLL CIPFA

**Gweithrediad: Parhau i danysgrifio i Ganolfan Gwrth Dwyll CIPFA a gwneud defnydd o'r cyfleuster, gan gynnwys y ffynhonnell adnabod risgiau twyll, er mwyn sicrhau mynediad at ymarfer da**

11 Rydym wedi ymrwymo i fod yn aelodau am y flwyddyn ariannol gyfredol, a disgwyliwn y byddwn yn parhau wedi hynny. Ymhellach, rydym yn anelu i fod yn ragweithiol, ac wedi cyfrannu i ymarferiad “Fraud Tracker” blynyddol y gwasanaeth unwaith eto eleni.

ADRODDIAD PWYLLGOR

**Gweithrediad: Cynnwys eitem ar waith atal twyll ar raglen y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddwywaith y flwyddyn**

12 Roedd disgwyliad y byddwn yn adrodd i gyfarfodydd Mai a Tachwedd y Pwyllgor i roi diweddariad ar y gwaith yma, ond bu’n rhaid canslo’r cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oedd i’w gynnal ym mis Mai 2020.

13 Cyflwynir yr adroddiad yma fel diweddariad, felly, gyda’r disgwyliad y bydd modd adrodd eto i’r Pwyllgor ym Mai 2021 – mae hyn eisoes wedi ei nodi ar y blaenraglen a gymeradwywyd ar 15 Hydref 2020.

DEFNYDDIO DATA

**Gweithrediad: Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio data'n well er mwyn adnabod ac ymchwilio i dwyll**

***Adolygiad Disgowntiau Treth Cyngor***

14 Adroddwyd i gyfarfod y Pwyllgor yn Tachwedd 2019 fod Cyngor Gwynedd yn cydweithio â chwmni Datatank i ddarparu gwaith parhaus o adolygu’r disgownt person sengl a roddir i gyfrifon Treth Cyngor. Mae ceisiadau ffug am y disgownt yma ymysg y twyll mwyaf cyffredin yn genedlaethol, ac mae astudiaethau wedi dangos fod y cyhoedd yn gweld hwn ymhlith y twyll mwyaf “derbyniol”.

15 Mae hyn yn dangos fod twyll disgownt person sengl yn gyffredin ac yn digwydd yn gyson – a nid oes unrhyw rheswm i feddwl fod Gwynedd yn wahanol i weddill Cymru.

16 Ar hyn o bryd, mae oddeutu 18,000 o gartrefi Gwynedd yn derbyn disgownt person sengl Treth Cyngor 25% sy’n cael ei ddyfarnu pan nad oes ond un oedolyn yn byw mewn eiddo.

17 Os darganfyddir hawliadau anghywir, mae’r Cyngor yn diweddu’r hawliadau, ysgrifennu at y trethdalwyr ac yn ceisio adennill y gostyngiad.

***Menter Twyll Genedlaethol***

18 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer cydweddu data sy'n helpu cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y DU.

19 Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data bob ddwy flynedd ar hyd a lled sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll a gordaliadau. Bydd ymarferiad llawn arall yn digwydd yn fuan, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddarparu data er mwyn ei basio ymlaen i Archwilio Cymru erbyn yr amser cau o 5y.h. ar 1 Rhagfyr.

20 Dyma’r setiau data sy’n orfodol i awdurdodau lleol eu cyflwyno:

- Cyflogres
- Pensiynau
- Hanes taliadau credydwyr masnach a data sefydlog credydwyr masnach
- Budd-daliadau tai (darparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau)

- Tai – tenantiaid, rhestr aros, Hawl i Brynu
- Y Dreth Gyngor (cyflwyno bob blwyddyn)
- Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor
- Cofrestr etholiadol (cyflwyno bob blwyddyn)
- Myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer benthyciad (i'w ddarparu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr)
- Preswylwyr cartrefi gofal â chymorth preifat (dyddiad casglu i'w gadarnhau)1
- Trafnidiaeth: trwyddedau parcio i breswylwyr a bathodynnau glas (data ar fathodynnau glas i'w ddarparu gan y Gwasanaeth Digidol Bathodynnau Glas) a chardiau a thrwyddedau teithio rhatach
- Trwyddedau – gyrrwr tacsi (gellir cyflwyno data masnachwr-gweithredwr marchnad a thrwydded alcohol bersonol yn wirfoddol)
- Cyllidebau personol (dyddiad casglu i'w gadarnhau)
- COVID-19 – data grantiau cymorth busnes.

21 Bydd y Cyngor yn dechrau derbyn canlyniadau'r gwaith priodi data o Ionawr 2021 ymlaen, a bydd gwaith yn cychwyn bryd hynny o wirio'r adroddiadau sydd wedi eu cynhyrchu er mwyn adnabod unrhyw achosion o dwyll.

DATBLYGIADAU NEWYDD

**Gweithrediad: Bydd y Cyngor yn effro i'r risg o dwyll gyda datblygiadau newydd o fewn y Cyngor**

22 Mae gweithredu hwn yn mynd law-yn-llaw â'r gwaith i gryfhau a datblygu trefniadau rheoli risg y Cyngor. O gael hwnnw yn ei le, dylai ddod yn naturiol i swyddogion nodi datblygiadau newydd o fewn y gofrestr. Mae'n bwysig nodi nad twyll ydi prif risg y mwyafrif o ddatblygiadau, ond rhaid bod yn ymwybodol fod twyll potensial i'w gael mewn unrhyw sefyllfa lle mae arian yn trosglwyddo.

23 Bydd aelodau'n sylwi o'r rhestr ym mharagraff 22 uchod mai un o'r setiau data newydd sy'n rhaid ei gyflwyno i'r Fenter Dwyll Genedlaethol eleni ydi data grantiau cymorth busnes COVID-19. Fel rhan o'r pecyn ysgogi ariannol i gefnogi busnesau yng Nghymru drwy gydol y pandemig Covid-19, roedd Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno dau offeryn grant nad oes angen eu had-dalu sy'n gysylltiedig ag eiddo annomestig. Roedd hyn yn cynnig:

**Grant 1**: Grant o £25,000 i fusnesau adwerthu, hamdden a lletygarwch sy'n meddiannu eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 ar 20 Mawrth 2020.

**Grant 2:** Grant o £10,000 i bob busnes sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach (SBRR) yng Nghymru gyda gwerth ardrethol o £12,000 neu lai ar 20 Mawrth 2020.

24 Roedd y grantiau hyn yn cael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Trethi. Erbyn 19 Tachwedd 2020 roedd y gwasanaeth wedi talu 528 Grant 1 a 4,645 Grant 2, gyda cyfanswm gwerth o £59.64m. Mae'n anorfod fod cynllun lle mae arian sylweddol yn cael ei ddyrannu mewn cyfnod o argyfwng, yn enwedig lle mae disgwyl i daliadau gael eu gwneud yn gyflym, am fod yn ddeniadol i dwyllwyr. Credwn fod trefniadau cadarn yn eu lle o fewn y Gwasanaeth Trethi i weinyddu'r grantiau a gwirio dilysrwydd y ceisiadau – tra fod hyn wedi denu cwynion gan rai oedd yn gweld oedi cyn cael eu taliadau, ymddengys fod balans briodol wedi cael ei daro rhwng talu'n gyflym a thalu'n gywir.

CODI YMWYBYDDIAETH

**Gweithrediad: Sefydlu Tîm Tasg a Gorffen i adnabod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am dwyll ar draws y Cyngor**

25 Nid yw hyn wedi digwydd eto, ac wedi llithro oherwydd yr amgylchiadau eithriadol eleni.

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI

**Gweithrediad: Bod yn ragweithiol drwy fynychu digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan gyrff proffesiynol, a/neu darparu hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn uchafu effeithiolrwydd**

26 Mae nifer o swyddogion o'r Adran Gyllid wedi mynychu webinarau ar-lein ers cychwyn y cyfnod clo ar faterion codi Twyll a Llygredd, gan gynnwys rhai sydd wedi cael eu darparu gan CIPFA, yr IRRV ac eraill. Mae'r ffaith fod digwyddiadau wedi gorfod symud i fod ar-lein wedi ei gwneud yn rhwyddach a rhatach i nifer o swyddogion fynychu a dysgu o bell.

27 Yn ogystal â swyddogion Budd-dal a Threthi, mae dau o'r archwilwyr mewnol hefyd wedi cymhwyso fel CIPFA *Accredited Counter Fraud Technician* (ACFTech). Mae un o'r archwilwyr yma ar secondiad ar hyn o bryd gyda chorff cyhoeddus arall tra ac yn gweithio yn benodol yn y maes ymchwilio twyll tra fod deilydd parhaol y swydd ar absenoldeb mamolaeth. Y disgwyliad yw y bydd y swyddog yn dysgu o'r profiad gwerthfawr hwn ac yn ei ddefnyddio gyda ni yn Cyngor Gwynedd yn y dyfodol agos pan yn dychwelyd i'w swydd arferol.

**ARGYMHELLIAD**

28 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn y maes gwrth-dwyll a gwrth-lygredd.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL | **TREFNIADAU RHEOLI RISG** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU I'R TREFNIADAU RHEOLI RISG, Y CAMAU GWEITHREDU NESAF, AC YSTYRIED OS YW'R YMATEB YN MYND I'R AFAEL Â'R MATERION A GODWYD YN LLYTHYR YR ARCHWILIWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81(1)(c) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddar yn y maes rheoli risg.

## 2. SEFYLLFA GYFREDOL

2.1 Mae aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r trefniadau sydd yn bodoli ar gyfer asesu a sgorio risgiau, gan ei fod yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd fel rhan o ddiweddariad y Rheolwr Archwilio ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ers 2018, mae dull Archwilio Mewnol o asesu risgiau'r gwasanaethau sy'n cael eu harchwilio yn dilyn y drefn yma.

2.2 Yn yr un modd, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ers peth amser bellach wedi bod yn cael ei baratoi ar sail y 22 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod ac sy'n cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.

2.3 Mae drefn a ddefnyddir yn ystyried dau ffactor wrth sgorio maint y risgiau, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

2.3.1. Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

**<u>Effaith</u>**

| Sgôr | Effaith | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Catastroffig | Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion |
| 4 | Dinistriol | Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion |
| 3 | Sylweddol Iawn | Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd ) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion |
| 2 | Arwyddocaol | Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer fawr o drigolion |
| 1 | Gweladwy | Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion. |

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

**Tebygolrwydd**

| Sgôr | Tebygolrwydd | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Digwydd rŵan | Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd) |
| 4 | Tebygol Iawn | Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy |
| 3 | Tebygol | Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim |
| 2 | Annhebygol | Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno |
| 1 | Annhebygol Iawn | Annhebygol iawn o ddigwydd |

2.3.2. Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi Sgôr Risg Presennol, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

| **Sgôr 20-25** | **Risg Uchel Iawn** |
|---|---|
| **Sgôr 12-16** | **Risg Uchel** |
| **Sgôr 6-10** | **Risg Ganolig** |
| **Sgôr 1-5** | **Risg Isel** |

**Asesiad Gyfredol**

2.4 Mae'r trefniadau rheoli risg yn faes penodol sy'n cael sylw wrth asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 30 Gorffennaf) yn disgrifio'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn:

2.5 Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

**Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol, megis Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant ac Oedolion a Chynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth. Mae tystiolaeth meintiol fod perfformiad yn y meysydd hyn yn gwella - er fod yna enghreifftiau o le i wella ymhellach.**

**Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.**

**Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i ddatblygu, a byddant yn esblygu ymhellach wrth i ddiwylliant Ffordd Gwynedd dreiddio trwy'r Cyngor. Gwaith diweddar i ddatblygu un Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer yr holl awdurdod, ac i wneud hynny law-yn-llaw â threfn ble mae yn unedau busnes yn cofnodi rhwystrau ac yn mynd ati i geisio datrys rheini yn syth, yn dechrau dangos llwyddiant.**

**Mae'r Pandemig Covid-19 wedi bod yn brawf sylweddol i Gynllun Pandemig Ffliw ac i gynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. Yn syth fe welwyd yr hyn sy'n digwydd gydag unrhyw gynllun, sef bod yna bethau yn digwydd nad ydynt wedi eu cyfarch yn y cynllun. Er enghraifft nid oedd y Cynllun Pandemig Ffliw yn rhagweld y byddai cymdeithas ei hun yn cael ei gloi lawr ac y byddai angen dygymod nid yn unig gydag absenoldebau staff ond hefyd gyda staff i gyd yn gweithio o adref.**

**Serch hynny llwyddwyd i ymateb ac mae'r nifer cymharol is yn yr achosion na'r hyn a ragwelwyd yn y tafluniadau gwreiddiol; y cyfyngiad yn y nifer marwolaethau a'r ffaith y bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau Blaenoriaeth 1 yn dyst i hynny.**

**3. CAMAU PELLACH**

3.1 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 yn nodi'r canlynol fel camau pellach sydd angen eu cymryd i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg:

**Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddaru'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.**

3.2 Ers cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu, mae camau canlynol wedi eu cymryd i barhau i ddatblygu'r trefniadau:

3.2.1. Mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda timau rheoli pob adran a'u Aelod Cabinet cyfrifol yn ystod Medi 2020 er mwyn cael diweddariad ar risgiau'r adrannau hynny yn unigol.


3.2.2. Y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cyfarfod wedyn gyda phob pennaeth adran, yr Aelod Cabinet cyfrifol a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol (y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer adroddiadau yn ymwneud â'r adrannau Cyllid a Cefnogaeth Corfforaethol) er mwyn adnabod materion sydd angen sylw am y flwyddyn nesaf.

3.2.3. Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedyn wedi cael sylw penodol gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod Hydref / Tachwedd 2020. Defnyddiwyd y cyfle i egluro i reolwyr fod angen i bob adran ystyried ei brif risgiau gan ddefnyddio'r drefn arferol o adnabod materiom all ddigwydd ac a fyddai'n effeithio ar allu uned fusnes i wireddu ei bwrpas. Defnyddiwyd un o risgiau'r Adran Gyllid fel enghraifft, sef y risg o eiddo'n trosglwyddo o fod yn breswylfa domestig sy'n talu Treth Cyngor i fod yn eiddo annomestig.

3.2.4. Eglurwyd y bydd cynnwys y gofrestr risg, a'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael â'r materion ynddo sydd angen sylw, yn chwarae rôl ganolog mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad yn y dyfodol.

3.2.5. Mae gan bob swyddog ar lefel rheolwr neu uwch fynediad at y gofrestr risg gyda'r bwriad o sicrhau ei fod wedi ei ddiweddaru'n briodol mor fuan â phosib. Wrth gwrs, ni fydd y gofrestr byth wedi ei orffen gan ei fod yn ddogfen fyw, ond y disgwyliad yw y byddwn wedi cyrraedd pwynt o fewn yr wythnosau nesaf lle mae'r gofrestr ar unrhyw bwynt mewn amser yn adlewyrchiad o wir sefyllfa'r Cyngor.

3.2.6. Mae'r graff isod yn dangos sut nifer yr addasiadau a wnaed i'r gofrestr fesul mis. Tra yn y gorffennol gwelir llawer o weithgaredd yn achlysurol, fel arfer pan fo cais penodol i ddiweddaru'r gofrestr, erbyn hyn mae'r mater yn cael sylw llawer mwy cyson, sy'n arwydd fod rheolwyr wedi dechrau gweld diweddaru'r gofrestr fel rhywbeth naturiol sy'n rhan o'r gwaith arferol.




3.3 Dylid nodi fod gwaith yn mynd ymlaen o fewn y Cyngor hefyd i baratoi erbyn diwedd y cyfnod trawsnewid sy'n dod i ben ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael cofrestr risg Brexit ar wahân ar hyn o bryd cyn diwedd y cyfnod trosglwyddo ar 31 Rhagfyr 2020.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau fod cofrestr risg gyflawn yn ei le.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2020/21 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Hydref 2020 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 19 |
| Crewyd Papurau Gwaith | 1 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 10 |
| Adroddiad Terfynol | 7 |
| **Cyfanswm** | **38** |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2021. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Hydref 2020 oedd **18.42%** - allan o'r **38** archwiliad unigol yng nghynllun 2020/21 roedd **7** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2020/21, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-11/2021/001 | Datganiadau Cyflogaeth | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **5.46** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-15/2021/001 | Newid Hinsawdd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-19/2021/001 | Trefniadau Diogelu | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.51** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-20/2021/001 | Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19 | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **5.51** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-20/2021/002 | Ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-20/2021/003 | Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd | 40.00 | 0.00 | **40.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-20/2021/004 | Risgiau gyda'r gadwyn gyflenwi | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.64** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-20/2021/005 | Trefniadau Gweithio o Gartref | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.86** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2021 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Cenedlaethol | 40.00 | 10.00 | **50.00** | **11.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2021/001 | Grant Datblygu Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.96** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2021/002 | Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.07** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2021/003 | Grant Addysg Ôl-16 | 3.00 | 0.00 | **3.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA32/2021/001 | Cronfeydd Ysgol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA35/2021/001 | Ysgolion Cyffredinol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **AMGYLCHEDD** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2021 | Gorfodaeth Ffyrdd a Parcio | 12.00 | 0.00 | **12.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AW-TG-12/2021/001 | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **5.30** | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AN-ACY-08/2021/001 | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2019-2020 | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **4.27** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-08/2021/002 | Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2019-2020 | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **2.84** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-08/2021/003 | Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2019-2020 | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.27** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-18/2021/001 | Taliadau i Weithwyr Gofal | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.01** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AP-PEN-11/2021/001 | Taleion Newydd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.31** | Wedi ei gynllunio |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2021/001 | Gostyngiad Treth Cyngor | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.61** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AC-TR-01/2021/001 | Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru | 120.00 | 0.00 | **120.00** | **126.11** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2021/001 | Cronfa'r Degwm | 3.00 | 0.00 | **3.00** | **0.41** | Wedi ei gynllunio |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2021/001 | Storiel | 6.00 | -1.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EDIW-OR-01/2021/001 | Amgueddfa Lloyd George | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **2.73** | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Busnes** | | | | | | |
| DDAT-AD-04/2021/001 | Cynllun STEM Gogledd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **3.24** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMT-01/2021/001 | Cynllun Rheoli Traethau | 10.00 | -2.00 | **8.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| DDAT-AD-05/2021/001 | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |
| DDAT-BS-02/2021/001 | Unedau Busnes | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **1.46** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART/2021/001 | Ffioedd Cartrefi Preifat | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| GGWAS-P03/2021/001 | Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.00** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GGWAS-P06/2021/001 | Asesiadau Statudol (AMHP) | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-PLANT2/2021 | Trefniadau "Cinio am Ddim" | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **3.01** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| PZ01/2021/001 | Asesiadau Risg | 25.00 | -5.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **TAI AC EIDDO** | | | | | | |
| **Digartrefedd a Tai Cefnogol** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2021 | Grant Cefnogi Pobl | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.61** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-D01/2021/001 | Costau Gwely a Brecwast | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **0.54** | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2021/001 | Cyllidebu a Gwariant | 15.00 | -5.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 TACHWEDD 2020** |
| AWDUR | **CYNGHORYDD JOHN BRYNMOR HUGHES** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol y Gweithgor ar 10 Tachwedd 2020 gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorwyr John Pughe Roberts, Angela Russell, Medwyn Hughes, Paul Rowlinson, Dewi Roberts, Sharon Warnes (Aelod Lleyg), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) yn bresennol.

1.2 Penderfynwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 i alw'r archwiliad **"Goramser"** gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau. Bu i'r archwiliad lefel sicrwydd "Cyfyngedig", sef **"Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt."**

## 2. PRIF DDARGANFYDDIADAU

2.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad gwreiddiol oedd:

> *Gwelwyd bod taliadau am oramser gwirfoddol ar draws pob gwasanaeth o fewn yr adran ac mae goblygiadau unrhyw reolau neu ddeddf newydd yn golygu nad yw'n gynaliadwy i barhau â thaliadau goramser ar yr un gyfradd. Mae'r adran eisoes wedi adnabod hyn ac yn y broses o adnabod cyfleoedd i addasu strwythurau staff a dulliau gweithredu.*
>
> *Mae nifer o wasanaethau lle mae taliadau goramser yn anorfod. Mae gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd prysur yn cael ei gynnal gyda'r nos i leihau'r effaith ar draffig yn ogystal â iechyd a diogelwch y gweithlu. Mae ymateb i ddamweiniau ar y priffyrdd yn ogystal â graeanu gyda'r nos yn weithgareddau tu allan i oriau gwaith arferol lle gweithredu drwy goramser yw'r ffordd mwyaf effeithiol i dalu'r gweithlu ym marn y rheolwyr gan nad oes posib rhaglennu ar eu cyfer. Mae gwaith megis ail wynebu ffyrdd hefyd yn waith lle mae angen ei gwblhau yr un diwrnod ac yn aml nid yw hyd sifft arferol yn ddigonol.*

*Mae'n fwy effeithlon i barhau i weithio ar gyfradd goramser yn hytrach na cheisio ail sefydlu ac ail gychwyn ar y diwrnod canlynol, mae natur deunyddiau megis 'tarmac' a'r angen i osgoi gwastraff hefyd yn berthnasol.*

*Mae gwariant ar oramser yn uchel iawn mewn gwasanaethau bwrdeistrefol megis casgliadau sbwriel ac ailgylchu. Telir goramser er mwyn ymdopi â'r amser a gollir wrth i gerbydau dorri lawr, methiant i gwblhau'r dasg o fewn yr oriau gwaith ond hefyd ar gyfer casgliadau wedi eu methu. Nid yw'n ymarferol i ddadlau â thrigolion ynglŷn â methu casgliadau a thelir goramser i weithiwyr ddychwelyd i'w casglu. Golyga natur y sifftiau 12.33 awr bod y gweithlu yn amrywio eu cylchdeithiau ar bob sifft a dim o reidrwydd yn casglu sbwriel/ailgylchu o'r un llefydd. Mae'r adran yn gobeithio bydd dychwelyd i sifftiau wythnosol yn rhoi fwy o gysondeb o ran yr amseroedd casglu i'r trigolion ac yn cynyddu ymwybyddiaeth y gweithlu a pha mor gyfarwydd ydynt â'r lleoliadau a'r casgliadau 'drws cefn'. Bydd angen ystyried yr adnoddau a'r gyllideb yn ofalus wrth drawsnewid, er mwyn gwella'r rheolaeth ar wariant goramser.*

*Mae'r drefn i ddychwelyd i ddiwrnod gwaith arferol o 7.5/7 awr eisoes wedi cychwyn yn Nwyfor ers Gorffennaf 2019 ac yn Arfon ers mis Tachwedd 2019 gyda Meirionnydd i ddilyn yn 2020. Yn ogystal mae'r adran wedi trafod gyda'r undebau er mwyn gwaredu'r drefn 'tasg a gorffen'. Y bwriad yw lleihau'r oriau di-gynnyrch ymysg y gweithlu, lleihau'r taliadau goramser am waith ychwanegol i'r dasg arferol a lleihau'r cymhelliant i ruthro sy'n cyfrannu at anafiadau ac absenoldebau salwch. Gwelwyd patrwm amlwg rhwng absenoldebau salwch a'r gwasanaethau lle mae'r gwariant uchaf ar oramser sef Casglu Sbwriel ac Ailgylchu, Glanhau Strydoedd a Safleoedd Gwastraff. Mae cyfran uchel o'r goramser er mwyn ymdopi â'r diffyg staff a sicrhau parhad gwasanaeth cyflawn.*

*Mae'r 'Rheoliadau Amser Gwaith' (1998) yn gyfraith sy'n atal cyflogwyr rhag gorfodi gweithwyr i weithio tu hwnt i gyfartaledd o 48 awr yr wythnos dros gyfnod o 17 wythnos. Nid yw gwaith gwirfoddol megis goramser gwirfoddol yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad yma ac mae'n ofynnol i gyflogwyr gadw tystiolaeth pan mae gweithwyr yn arwyddo taflen i gadarnhau eu bod yn dewis eithrio o'r rheol. Mae nifer o weithwyr yn gweithio mewn nifer o swyddi sydd erbyn hyn ar draws nifer o adrannau. Mae'r cyfanswm oriau maent yn gofnodi pob mis yn uchel a thu hwnt i'r 48 awr ac mae angen edrych os oes gweithwyr sydd angen eithrio o'r rheol.*

*Mae'r cyfradd talu yn amrywio rhwng gwasanaethau ag ardaloedd. Gwelwyd bod goramser mewn rhai ardaloedd yn bennaf ar gyfradd sylfaenol tra fod ardaloedd eraill yn talu y rhan helaeth ar gyfradd amser a hanner. Ymddengys bod gwaith tu hwnt i oriau sylfaenol ar raddfa amser a hanner tra fod y cyfradd sylfaenol yn cael ei dalu ar gyfer sifftiau ychwanegol er mwyn cyflenwi staff sy'n absennol. Yn ôl y polisïau perthnasol nid yw swyddogion ar gyflog sydd ar raddfa 23 ag uwch i fod i dderbyn taliadau goramser ar gyfradd amser a hanner ond gwelwyd sawl engraifft o hyn.*

*Mae canllawiau yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn nodi bod goramser cynlluniedig i'w dalu ar gyfradd amser a hanner tra bod goramser heb ei gynllunio i'w dalu ar gyfradd sylfaenol. Mae hyn wedi bod yn destun sawl trafodaeth heb ddiweddglo pendant na arweiniad penodol oherwydd y gwahaniaeth yn natur y gwaith a'r amgylchiadau mewn gwahanol adrannau. Mae'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn y broses o edrych ar y polisi er mwyn cyhoeddi newidiadau sy'n fwy priodol ag addas.*

*Yn ogystal â newid trefniadau gwaith yn y meysydd Sbwriel ac Ailgylchu mae'r adran yn mynd drwy'r broses o ail strwythuro ers penodi Pennaeth newydd er mwyn i'r unedau Priffyrdd, Bwrdeistrefol a Chomisiynu weithredu yn fwy cyson. Mae'r adran yn bwriadu ail edrych ar strwythur gwaith a staffio gwasanaethau eraill o fewn yr adran er mwyn eu haddasu gyda'r bwriad i leihau'r gwariant ar oramser. Mae treialon llwyddiannus eisoes wedi eu cynnal mewn rhai gwasanaethau megis Safle Gwastraff Meirionnydd lle mae'r penwythnos yn rhan o'r wythnos waith arferol ond mae'r adran yn gweithredu'n ofalus oherwydd yr angen i ystyried natur y gwaith mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd cyn penderfynu ar strwythur ymarferol.*

2.2 Croesawyd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol i'r cyfarfod.

2.3 Rhoddwyd ychydig o gefndir yr archwiliad gan y Rheolwr Archwilio gan bwysleisio ei phryder o ran taliadau goramser i weithwyr sydd ar bwyntiau cyflog 23 neu uwch. Eglurodd bod Adnoddau Dynol wedi mynegi mai fel rheol, bydd staff sydd yn cael eu cyflogi ar bwyntiau cyflog 23 ac uwch yn derbyn tâl sylfaenol am weithio goramser ond bod gan Benaethiaid hawl i awdurdodi taliad ar sail amser a hanner ar gyfer staff sydd yn cael eu talu ar bwynt cyflog 23 a uwch, cyn belled a bod y gwaith hwnnw wedi ei gynllunio o flaen llaw. Mynegodd y Rheolwr Archwilio y gall hyn arwain at anghysondebau ar draws gwasanaethau/adrannau gan y gall swyddog mewn un gwasanaeth/adran dderbyn taliad goramser ar sail amser a hanner tra gall swyddog mewn gwasanaeth arall dderbyn goramser ar y cyfradd tâl sylfaenol.

2.4 Mynegodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol bod diffyg cysondeb mewn hawlio goramser ond bod y polisi yn mynegi y telir goramser am waith sydd wedi ei gynllunio ymlaen llaw.

2.5 Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan y Pennaeth a mynegodd bod angen rheolaeth dros weithlu Priffyrdd a'r gweithlu casglu sbwriel (Bwrdeistrefol). Eglurodd nad oedd wedi cael amser i gyfarch yr holl gamau yn y cynllun gweithredu cytunedig oherwydd Covid-19 a'r angen i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd ar fyrder.

2.6 Eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol nad oedd y patrwm shifft o weithio ddim yn cyflawni pwrpas ac mai dyna oedd y rheswm dros symud i weithio 37 awr dros bum diwrnod. Mynegodd bod y rhaglen o ymfudo i'r drefn newydd wedi llithro yn ardal Meirionnydd a bydd y trefniant newydd yn dod i rym ym mis Mawrth 2021.

2.7 Ymholodd Aelod os oedd yr Adran wedi ei chyllido'n briodol ac os oes digon o staff. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, wrth gwrs y byddai'n gwerthfawrogi mwy o gyllid a bod arbedion sylweddol eisoes wedi eu tynnu o gyllideb y Gwasanaeth Gwastraff a bod darn o waith ar y gweill ar hyn o bryd yn adolygu swydd ddisgrifiadau ac amodau gwaith ond y byddai angen trafodaethau gyda'r undebau perthnasol cyn cyflwyno unrhyw drefniadau newydd.

2.8 Mynegodd Aelod bod salwch yn ffactor i'r Adran ac efallai mai cael mwy o staff fyddai'r datrysiad yn hytrach na talu goramser. Bu i'r Rheolwr Archwilio fynegi nad oedd y polisi cyfredol yn synhwyrol o ran talu goramser – mynegodd y gellir talu am oramser os yw'r gwaith wedi ei gynllunio o flaen llawn (rhaglenedig) ond ddim ar gyfer gwaith heb ei gynllunio (unplanned). Mynegodd os oedd Rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw waith rhaglenedig, yna nid oedd rhesymeg pam na all hyn hynny gael ei raglennu i raglen waith arferol a bod taliadau goramser i'w talu ar gyfer argyfyngau yn unig, e.e. pan fu aflonyddwch sylweddol o ganlyniad i ddiffyg systemau TG. Cytunodd Aelodau â'r sylwad hwn.

2.9 Mewn ymateb i'r uchod, mynegodd y Rheolwr Ymgynghorol Gwasanaethau Adnoddau Dynol bod y polisi wedi ei sefydlu beth amser yn ôl a bod angen ail-ymweld â'r polisi a'r trefniadau goramser yn gorfforaethol. Ymhelaethodd drwy ddatgan fod prosiect eisoes ar y gweill.

2.10 Gofynnodd Aelod os oes modd defnyddio a manteisio ar dechnoleg i hwyluso prosesau. Ymatebodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol eu bod eisoes yn defnyddio technoleg ar gyfer rhai trefniadau megis defnyddio cyfradd lledaenu ar gyfer graeanu ffyrdd yn ystod tywydd garw.

2.11 I gloi, mynegodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol y bydd yn ail-ymweld â'r cynllun gweithredu ac yn ei ddiweddaru o safbwynt dyddiadau gweithredu. Yn sgil yr amgylchiadau presennol, nid oedd gan y Rheolwr Archwilio unrhyw wrthwynebiad i adolygu'r amserlen ar gyfer gweithredu.

2.11 Diolchwyd i'r Swyddogion am fynychu'r cyfarfod a diolchodd sawl Aelod i Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol am y modd y mae'r Gwasanaeth Casglu Sbwriel ac Ailgylchu wedi cynnal a pharhau i gyflawni a darparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd yn ystod cyfnod pandemig Covid-19.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 TACHWEDD 2020** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 HYDREF 2020** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2020 hyd 31 Hydref 2020.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2020:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 6 |
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2019/2020 | 2 |
| Adroddiadau Eraill o'r Cynllun Gweithredol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2020, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Grant Datblygu Disgyblion | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 1 |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 2 |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2019/2020 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 3 |
| Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2019/2020 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 4 |
| Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2019/2020 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 5 |
| Grant Cefnogi Pobl | Tai ac Eiddo | Digartrefedd a Tai Cefnogol | Uchel | Atodiad 6 |
| Cynllun ARFOR | Economi a Chymuned | Cefnogi Busnes | Uchel | Atodiad 7 |
| Plas Gwilym | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, gwnaethpwyd gwaith ar archwiliad "Datganiadau Cyflogaeth". Bwriad yr archwiliad oedd gwirio bod cymal ynglŷn â hyfforddiant statudol megis diogelu wedi ei gynnwys yn natganiadau cyflogaeth holl staff y Cyngor er mwyn atgyfnerthu'r pwysigrwydd bod y cyfrifoldeb yn berthnasol i bawb. Detholwyd sampl o 40 aelod o staff ar draws y Cyngor oedd yn newydd i'w swydd ers mis Ionawr 2020 a gwriwyd eu datganiadau cyflogaeth a chofnodion hyfforddiant. Darganfuwyd nad oedd y cymal wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r datganiadau cyflogaeth a ddetholwyd. Cysylltwyd â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol nad oedd gwaith wedi ei wneud i gynnwys y cymal oherwydd bod amgylchiadau Covid-19 wedi amharu ar gyflawni hynny. I'r perwyl hyn, penderfynwyd i beidio dyrannu lefel sicrwydd ond bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ail-ymweld â'r maes yn y dyfodol agos.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Hydref 2020:

- Newid Hinsawdd *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19 *(Corfforaethol)*
- Risgiau gyda'r Gadwyn Gyflenwi *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Gweithio o Gartref *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Cenedlaethol *(Corfforaethol)*
- Taliadau i Weithwyr Gofal *(Cyllid)*
- Gostyngiad Treth Cyngor *(Cyllid)*
- Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru *(Cyllid)*
- Cynllun STEM Gogledd *(Economi a Chymuned)*
- Unedau Busnes *(Economi a Chymuned)*
- Trefniadau Cinio am Ddim *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Hydref 2020, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**GRANT DATBLYGU DISGYBLION**

**1. Cefndir**

1.1 Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy’n derbyn gofal. Bwriedir iddo oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy’n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.

1.2 Caiff y grant ei ddirprwyo i’r Ysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar gan eithrio'r elfen ‘Plant sy’n Derbyn Gofal’ a caiff ei reoli yn rhanbarthol gan y Consortiwm Addysg Lleol, sef GwE. Mae GwE hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant a’u cefnogi i’r perwyl hynny. Cyngor Gwynedd yw awdurdod arweiniol y grant ar ran awdurdodau y gogledd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cadarnhau cywirdeb y Dystysgrif Archwilio, sef datganiad o wariant yr Awdurdod ar gyfer grant 2019/20, a chadarnhad bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y grant wedi ei ddirprwyo’n uniongyrchol i’r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio’r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu’r Grant Datblygu Disgyblion. Cysonwyd y gwariant ar y Dystysgrif Archwilio gyda’r cyfriflyfr ac ymddengys fod y gwariant yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant.

# GRANT RHANBARTHOL CONSORTIA GWELLA YSGOLION

## 1. Cefndir

1.1 Ar 1af Ebrill 2015, crëwyd y Grant Gwella Addysg (GGA) wedi i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol:

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

1.2 Bellach mae'r GGA wedi ei ymgorffori i grant newydd, sef, 'Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion – (GRCGY)'. Diben y grant yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr.

1.3 Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2019-20 yn nodi'r disgwyliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y GRCGY yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod arweiniol GRCGY a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu GRCGY 2019-20, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant. Cadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir, yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant.

4.2 Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r GRCGY. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

# DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2019/20, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd, gan gynnwys taliadau arian mân, wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Cefnogir ffigwr asedau sefydlog ar y datganiadau cyfrifyddu gan gofrestr asedau.

4.5 Fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2019/20, ymwelwyd â'r Harbyrau er mwyn cynnal archwiliad 'Iechyd a Diogelwch Harbyrau', oedd yn cwmpasu gwirio asesiadau risg. Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer eu llunio a'u bod yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu ynghynt.

# DATGANIAD CYFRIFYDDU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau â ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Wasanaeth Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad. Sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

4.4 Mae 'taliadau eraill' yn cynnwys cludiant, cyflenwadau gwasanaethau eraill, costau datblygu'r Cynllun a chostau cefnogaeth canolog.

# DATGANIAD CYFRIFYDDU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## 1. Cefndir

1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae eu hamcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2019/20, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill â wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Cyflwynwyd cofrestr risg i'r Bwrdd ar y 12fed o Ebrill 2019 sy'n canolbwyntio ar risgiau sy'n codi o'r rhaglen waith cychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1af o Chwefror 2019. Ychwanegir risgiau i'r gofrestr yn ystod y flwyddyn.

4.4 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

**GRANT CEFNOGI POBL**

**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd dros £5 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019-20 fel rhan o gynllun Cefnogi Pobl. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer 2019-20, drwy wirio'r costau a hawliwyd, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

Atodiad 7

# CYNLLUN ARFOR

## 1. Cefndir

1.1 Rhaglen sydd yn gweithio ar draws Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr yw ARFOR. Bwriad y rhaglen yw cefnogi i greu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg. Cadarnhaodd Gweinidog yr Economi Llywodraeth Cymru bod £2 filiwn o gyllideb ar gael i'r pedwar cyngor ar gyfer y rhaglen bydd yn rhedeg o gychwyn blwyddyn ariannol 2019/20 hyd at ddiwedd 2020/21.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau llywodraethu addas mewn lle er mwyn cyflawni amcanion rhaglen ARFOR. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau sydd mewn lle yng Ngwynedd, fel yr awdurdod arweiniol, i lywodraethu'r rhaglen, gan liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â'r prosiect.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Mae Arweinyddion y pedwar Awdurdod Lleol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd dros y flwyddyn diwethaf er mwyn trafod blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen. Mae Bwrdd Rhaglen Arfor wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys Arweinydd y pedwar awdurdod gyda sylwebyddion o Lywodraeth Cymru yn bresennol. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen, gofynnwyd i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer y bedair sir gan gydlynu'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru. Nodir datganiad o bwrpas yng Nghylch Gorchwyl Bwrdd ARFOR (mabwysiadwyd 26 Tachwedd 2018): 'Gweithio mewn partneriaeth i sefydlu fframwaith lle bydd datblygiad economaidd a chynllunio ieithyddol yn cael eu cydgysylltu.' Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys sicrhau gweithrediad a monitro pob prosiect yn ogystal â chraffu adroddiadau cynnydd ac awdurdodi newidiadau i'r rhaglen. Mae'r Bwrdd yn cynnwys arweinwyr y pedwar Awdurdod Lleol a chynrychiolwyr o Llywodraeth Cymru a CLlLC. Mae'r aelodau unigol i gyd yn gyfrifol am adrodd yn ôl i'w sefydliadau ynghylch cynnydd y rhaglen. Mae Bwrdd ARFOR yn cyfarfod yn chwarterol a gwelwyd eu bod yn cwblhau'r hyn sy'n ofynnol ohonynt wrth edrych ar nodiadau eu cyfarfodydd. Mae'r Grŵp Swyddogion sy'n atebol i'r Bwrdd yn cyfarfod pob 2 fis. Mae cynrychiolaeth o pob sir, CLlLC a Llywodraeth Cymru. Mae Grŵp Llywio Gwynedd yn cyfarfod pob 2 fis. Y grŵp yma sy'n goruchwylio prosiectau Gwynedd yn fanwl ar lefel sirol. Mae Swyddogion Gwynedd sy'n rhedeg y prosiectau, Aelod Cabinet Economi a Chymuned ac Aelod Cabinet Iaith yn y grŵp yma. Mae gan pob awdurdod grŵp cyfatebol sy'n cyflawni'r un pwrpas.

4.2 Yn ei gyfarfod ar y 16 Gorffennaf 2019 penderfynodd y Cabinet i awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno i gwblhau cytundeb rhwng awdurdod priodol. Gwelwyd ddogfen IAA (Inter Authority Agreement) priodol sydd wedi ei anfon i'r Cynghorau sy'n rhan o'r prosiect ARFOR (Sir Fôn, Sir Gar a Sir Ceredigion). Anfonwyd ebost ar y 24 Ionawr 2020 oddi wrth Cyfreithiwr Eiddo, Contractau a Chaffael Cyngor Gwynedd at gynrychiolwyr o bob Cyngor sy'n rhan o gynllun ARFOR. Atodwyd y cytundeb IAA a gofynnwyd i'r Cynghorau ei gymeradwyo, arwyddo a'i selio cyn ei anfon ymlaen.

4.3 Mae cofrestrau risg yn cael eu cwblhau a'u diweddaru pob tro bydd hawliad. Y Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig sydd yn gyfrifol am lunio a diweddaru'r gofrestr risg. Roedd cynnwys y cofrestrau risg yn rhesymol. Roedd cyfrifoldeb, tebygolrwydd, effaith a gweithrediadau ar gyfer pob risg restrwyd. Trafodwyd yr angen am gofrestr gwersi a ddysgwyd ar gyfer y prosiect gyda'r Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig a mynegodd nad oedd un yn bodoli ar amser yr archwiliad oherwydd bod y prosiect dal yn y dyddiau cynnar. Cadarnhaodd bydd un yn cael ei greu pan fydd mwy o wybodaeth ar gael i'w asesu.

4.4 Nododd y Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig bod gwariant prosiectau yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd Grŵp Llywio. Gwelwyd tystiolaeth o drafodaethau am y gyllideb ar gyfer pob prosiect Gwynedd yn nodiadau cyfarfodydd y Grŵp Llywio. Mynegodd hefyd bydd swyddogion yn cyfarfod â chwmnïau. Caiff y gyllideb ar gyfer yr holl gynllun ei gwirio ar ffurf proffiliau cyn pob hawliad wrth gymharu'r gwir-wariant gyda'r gyllideb. Mae'r gyllideb hon wedi ei phennu yn y llythyr cynnig ac mae'r bwrdd wedi ei derbyn o fewn y briff 26 Tachwedd 2018.

4.5 Mae 4 prosiect yn cael eu cynnal yng Ngwynedd: Llwyddo'n Lleol, Her Cymunedau Mentrus, Cymorth i Fentro a FFIWS. Gwiriwyd y trefniadau i asesu ceisiadau a'r matricsau sgorio defnyddiwyd i benderfynu teilyngdod a gwelwyd bod gwiriadau priodol wedi eu cynnal ble ddisgwylir ar gyfer y ceisiadau.

**PLAS GWILYM**

**1. Cefndir**

Mae Cartref Plas Gwilym, Penygroes yn cynnig gofal i hyd at 27 o breswylwyr.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Gwilym yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Detholwyd sampl o 10 aelod o staff a gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant gan ddefnyddio'r bas-data hyfforddiant a'r Modiwl Datblygu Staff. Gwelwyd bod hyfforddiant mewn meysydd megis codi a thrin a diogelu yn ddigonol ar gyfer yr unigolion yn y sampl. Roedd statws DBS pob un o'r 10 aelod o staff yma hefyd yn gyfredol ar amser yr archwiliad.

5.2 Gwiriwyd trefniadau taliadau yn ogystal â threfniadau incwm y cartref. Roedd cofnod digonol yn cael ei gadw yn y cartref ac roedd yr anfonebau a ffurflenni incwm wiriwyd fel rhan o'r sampl wedi eu cwblhau yn gywir.

5.3 Yn ystod yr ymweliad â'r cartref, gwelwyd bod rheolaethau cryf mewn lle mewn perthynas â meddyginiaeth. Roedd y sampl o gofnodion MAR yn cydfynd â chofnodion eraill y Cartref a'r niferoedd o feddyginiaeth oedd wedi'u storio. Roedd yr ystafell yn ddiogel gyda staff parhaol i gyd â mynediad drwy ddefnyddio côd i agor y drws. Roedd cofnodion tymheredd yr oergell a'r ystafell yn cael eu cadw ddwy waith y dydd a caiff rhain eu gwirio yn fisol.

5.4 Mae goruchwyliaeth chwarterol yn ofynnol yn ôl RISGA (drafft 2017). Mynegodd y Rheolwr bod rhain yn cael eu cynnal boed yn oruchwyliaeth unigol neu fel grŵp. Nid oedd tystiolaeth o oruchwyliaeth chwarterol yn ffeiliau'r staff ddetholwyd fel sampl. Gellir gwella'r rheolaeth yma drwy sicrhau bod cofnodion o'r goruchwyliaethau yn cael eu cadw ar ffeil o pob aelod o staff.

5.5 Mai 2016 oedd y dyddiad gwirio diweddaraf welwyd ar gofrestr eiddo'r Cartref. Gwiriwyd eiddo mewn ystafell yn erbyn y gofrestr yn ystod yr ymweliad ac roedd mân ddiweddariadau heb eu cynnal megis teledu. Buasai'n reolaeth dda i wirio'r gofrestr fesul ystafell yn flynyddol.

5.6 Roedd rheoli amser y Cartref yn effeithiol ond roedd trefn gymhleth yno gyda gwahanol staff yn gweithio ar rota hyd gwahanol (3 neu 4 wythnos). Roedd hyn yn golygu bod mwy o amser y dirprwy yn cael ei dreulio yn gwirio'r amserlenni na ddylai fod angen. Mynegodd y Rheolwr bod system TG ar y gweill i gael ei chreu i'r diben o reoli amser staff y Cartref.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob goruchwyliaeth gynhelir â staff.**
- **Sicrhau bod y gofrestr asedau yn cael ei gwirio a'i diweddaru yn flynyddol**